




Gweinyddiaeth
Cyfiawnder

Priodasau gan Sefydliadau cred digrefydd

Mae'r ymgynghoriad hwn yn dechrau ar 26 Mehefin 2014

Daw'r ymgynghoriad hwn i ben ar 18 Medi 2014





Gweinyddiaeth
Cyfiawnder

Priodasau gan Sefydliadau cred digrefydd

Ymgynghoriad a gynhyrchwyd gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder. Mae ar gael hefyd ar wefan y Weinyddiaeth Cyfiawnder yn www.justice.gov.uk

Ynglŷn â'r ymgynghoriad hwn

At: Mae'r ymgynghoriad hwn wedi'i anelu at y cyhoedd yng Nghymru a Lloegr. Mae wedi'i anelu hefyd at sefydliadau cred digrefydd a sefydliadau crefyddol a'u haelodau, y sawl sy'n darparu gwasanaethau priodas a chanolfannau cymeradwy, awdurdodau lleol a chofrestryddion, a sefydliadau ac unigolion eraill â diddordeb mewn gweinyddu priodasau yng Nghymru a Lloegr.

Hyd: O 26 Mehefin 2014 tan 18 Medi 2014

Ymholiadau (gan gynnwys ceisiadau i gael y papur mewn fformat arall) at: Maya Sooben
Ministry of Justice
Family Justice
4.31, 4th Floor
102 Petty France
Llundain SW1H 9AJ
Ffôn: 020 3334 3127
E-bost: MarriagesbyNon-ReligiousBeliefOrganisations@justice.gsi.gov.uk

Sut i ymateb: Anfonwch eich ymateb erbyn 18 Medi 2014 at:
Maya Sooben
Ministry of Justice
Family Justice
4.31, 4th Floor
102 Petty France
Llundain SW1H 9AJ
Ffôn: 020 3334 3127
E-bost: MarriagesbyNon-ReligiousBeliefOrganisations@justice.gsi.gov.uk

Papur ymatebion: Disgwylir y bydd ymateb i'r ymarferiad ymgynghori hwn wedi'i gyhoeddi erbyn 1 Ionawr 2015 yn: <http://www.justice.gov.uk>

Cynnwys

Rhagair	3
Crynodeb Gweithredol	4
RHAN 1 – Diben yr ymgynghoriad a throsolwg	7
RHAN 2 – Cefndir	10
RHAN 3 – Ystyriaethau a chwestiynau'r ymgynghoriad	15
Atodiad A: Priodasau gan sefydliadau cred digrefydd - Datganiad cydraddoldeb	26
Atodiad B: Priodasau gan sefydliadau cred digrefydd - Asesiad cryno o gostau a manteision	30
Amdanoch chi	34
Manylion cyswllt/Sut i ymateb	35
Egwyddorion yr Ymgynghoriad	36

Rhagair

Mae'r Llywodraeth o'r farn bod priodas yn un o'n sefydliadau pwysicaf ac mae'n credu ei bod yn briodol bod cyplau'n cael y dewis o seremoni briodasol grefyddol neu seciwlar, fel a ganiateir o dan gyfraith priodas yng Nghymru a Lloegr. Mae priodas yn sefydliad pwysig ac yn un sy'n cael ei werthfawrogi a dylid diogelu ei statws penodol a'i urddas mewn cymdeithas. Gall priodasau hefyd newid statws mewn fudo, treth a budd-daliadau a rhaid eu gweinyddu'n briodol. Felly mae goblygiadau newidiadau pellach i'r gyfraith priodas a gwneud camgymeriadau yn y broses yn rhai sylweddol.

Yn yr Alban, mae'r gyfraith wedi'i newid yn ystod y blynyddoedd diwethaf i ganiatáu priodasau dyneiddiol a chan greddoau digrefydd eraill o fewn system lle mae gweinyddion unigol yn cael eu cofrestru i gynnal priodasau. Mae gennym ni system wahanol, gyda mesurau diogelu gwahanol, sy'n seiliedig yn bennaf ar gofrestru adeiladau.


Yn ystod taith seneddol Deddf Priodasau (Cyplau o'r Un Rhyw) 2013 bu'r Senedd yn dadlau a ddylid newid y gyfraith yng Nghymru a Lloegr i ganiatáu trydydd math, gwahanol, o seremoni briodasol fel y byddai sefydliadau cred digrefydd yn cael cynnal priodasau yma, fel yn yr Alban. Mae rhwng chwech ac wyth gant o briodasau dyneiddiol yn cael eu cynnal yng Nghymru a Lloegr bob blwyddyn ond nid oes ganddynt statws cyfreithiol. Derbyniodd y Llywodraeth y dylem ymgynghori â'r cyhoedd ar y mater cyn gwneud penderfyniad. Felly, fel rhan o Ddeddf 2013 mae rhwymedigaeth statudol arnom i gynnal adolygiad sy'n seiliedig ar ymgynghoriad cyhoeddus i benderfynu a ddylai'r gyfraith gael ei diwygio ymhellach i ganiatáu seremonïau priodasol credoau digrefydd.

Mae'n briodol felly ein bod yn ymgynghori ar fater priodasau credoau digrefydd, ac yn ystyried yn ofalus y goblygiadau i'n cyfraith a'n harferion priodasol, cyn gwneud penderfyniad i newid y gyfraith yng Nghymru a Lloegr. Rhaid i'n hymgynghoriad ystyried y rhesymeg a lefel y galw am newid o'r fath a pha fesurau diogelu a fyddai eu hangen, er enghraifft i wneud yn siŵr na fyddai'n arwain at gynnydd mewn priodasau ffug a phriodasau dan orfod.

Mae'r ymgynghoriad hwn felly'n gofyn am eich sylwadau ar nifer o faterion ac opsiynau allweddol:

- a oes dadl gref o blaid newid;
- pa sefydliadau cred digrefydd a all gydymffurfio â diffiniad Adran 14 i gael eu cofrestru i gynnal seremonïau cred; a yw'r diffiniad yn briodol a beth fyddai'r ystyriaethau a fyddai ynghlwm wrth newidiadau o'r fath;
- pe baent yn cael eu caniatáu, ym mhle allai priodasau o'r fath gael eu cynnal;
- pa fesurau diogelu fyddai eu hangen i ddelio ag unrhyw risgiau a all ddeillio ohonynt; a
- beth fyddai'r effeithiau ar gydraddoldeb.

Edrychaf ymlaen at glywed eich sylwadau ar y materion hyn ac eraill a drafodir yn yr ymgynghoriad.



Simon Hughes
Y Gweinidog Gwladol dros Gyfiawnder a Hawliau Sifil

Crynodeb Gweithredol

Mae Deddf Priodasau 1949 yn caniatáu seremonïau priodasol crefyddol a seremonïau priodasol sifil (priodasau a gynhelir ym mhresenoldeb cofrestrydd arolygol a chofrestrydd mewn swyddfa cofrestru neu mewn adeilad a gymeradwywyd i'r diben hwnnw) yng Nghymru a Lloegr. Yn ystod taith seneddol Deddf Priodasau (Cyplau o'r Un Rhyw) 2013 cyflwynwyd nifer o welliannau er mwyn caniatáu dyneiddwyr, a sefydliadau cred digrefydd eraill o bosibl, i gynnal priodasau. Ar hyn o bryd, mae Cymdeithas Dyneiddwyr Prydain (BHA) yn cynnal seremonïau priodasol yn unol â chredoau dyneiddiol ond nid oes gan y rhain statws cyfreithiol.

Mae Adran 14 Deddf Priodasau (Cyplau o'r Un Rhyw) 2013 yn ei gwneud yn ofynnol bod yr Ysgrifennydd Gwladol yn trefnu adolygiad i ystyried a ddylid newid y gyfraith i ganiatáu priodasau gan sefydliadau cred digrefydd. Diffinnir y rhain fel "sefydliadau sy'n datgan mai hyrwyddo system o gredoau sy'n gysylltiedig â moesoldeb neu foeseg yw eu prif neu eu hunig ddiben". Cyhoeddir yr ymgynghoriad hwn yn unol ag adran 14 sy'n datgan bod yn rhaid i'r trefniadau ar gyfer yr adolygiad gynnwys ymgynghoriad cyhoeddus llawn.

Yn dilyn yr ymgynghoriad hwn, bydd y mater o ganiatáu sefydliadau cred i gynnal priodasau yn cael ei ystyried ymhellach yng ngoleuni'r ymatebion a gafwyd.

Mae **Rhan 1** y papur yn rhoi cyflwyniad cyffredinol i'r mater ac at bwy mae'r ymgynghoriad wedi'i anelu.

Mae **Rhan 2** yn cynnwys gwybodaeth am y mathau o seremonïau priodas a ganiateir yn awr yng Nghymru a Lloegr, ac am Ddeddf Priodasau (Cyplau o'r Un Rhyw) 2013 sy'n diwygio Deddf 1949.

Mae **Rhan 3** yn cyflwyno'r prif faterion ac opsiynau y mae angen eu hystyried a'r cwestiynau penodol y mae'r Llywodraeth am glywed eich barn amdanynt. Mae hyn yn cynnwys ystyried pa sefydliadau cred digrefydd, yn ychwanegol at Sefydliad Dyneiddwyr Prydain, all gydymffurfio â'r diffiniad a geir yn Adran 14 Deddf 2013, ac a ddylid cyfyngu ar y diffiniad er mwyn sicrhau unrhyw fesurau diogelu angenrheidiol.

Mae **Rhan 4** yn cyflwyno dyletswyddau cydraddoldeb y Llywodraeth yn gryno a phrif gasgliadau asesiad cychwynnol o effaith tebygol ein cynigion, a amlinellir yn **Atodiad A**. Rydym yn gofyn i ymgynghoreion beth y tybia hwy sy'n effeithiau ar gydraddoldeb a chroesewir unrhyw wybodaeth gysylltiedig a fyddai'n helpu â'n dealltwriaeth a'n hasesiad.

Amgaeir asesiad o'r effeithiau posibl ar fusnesau, y trydydd sector a'r sector cyhoeddus yn **Atodiad B**.

Ystyriaethau a chwestiynau allweddol

Mae'r ymgynghoriad yn gofyn a ddylem gadw'r gyfraith bresennol ar weinyddu priodasau neu a oes dadl gref dros newid y gyfraith i sefydlu seremonïau credoau digrefydd fel trydydd math o seremoni gyfreithiol, ynghyd â seremonïau crefyddol a sifil, ar gyfer priodi yng Nghymru a Lloegr. Mae angen ystyried a yw'r gyfraith bresennol yn gwasanaethu cyplau â chredoau dyneiddiol a chredoau digrefydd eraill yn ddigonol, o gofio bod cyplau â chredoau digrefydd yn gallu priodi mewn seremonïau sifil lle gellir ymgorffori elfennau personol, gan gynnwys defnyddio llwon personol (digrefydd). Mae'r rhai sy'n cefnogi

newid y gyfraith yn dadlau bod galw gwirioneddol am briodasau dyneiddiol (gyda 600-800 o briodasau o'r fath yn cael eu cynnal yng Nghymru a Lloegr bob blwyddyn, gydag oddeutu 80% ohonynt yn cael eu cynnal yn ychwanegol at seremoni sifil sydd â statws cyfreithiol); a bod dyneiddwyr, ac eraill o bosibl sy'n arddel credoau digrefydd, o dan anfantais am nad ydynt yn cael eu trin yn yr un ffordd â rhai sy'n arddel credoau crefyddol sy'n gallu priodi mewn seremoni sydd â statws cyfreithiol ac sy'n adlewyrchu eu credoau, ac sy'n cael eu cynnal gan weinydd sy'n rhannu eu crefydd.

O gofio bod y gyfraith ar weinyddu priodasau'n seiliedig i raddau helaeth ar seremoni sy'n cael ei chynnal mewn adeilad a gofrestrwyd i'r diben hwnnw (heblaw am eithriad hanesyddol priodasau Crynwyr ac Iddewon, lle nad oes cyfyngiad o ran ble gellir cynnal y seremonïau), ac nad oes gan ddyneiddwyr (a sefydliadau eraill o bosibl a all gydymffurfio â meini prawf ar gyfer cyrff cred digrefydd) eu hadeiladau eu hunain, mae angen ystyried ym mhle, pe baent yn cael eu caniatáu, y byddai priodasau cred yn cael eu cynnal. Mae'r papur yn amlinellu ac yn gwahodd sylwadau ar dri opsiwn posibl:

Opsiwn 1: Caniatáu sefydliadau cred digrefydd i weinyddu priodasau yn eu hadeiladau eu hunain neu adeiladau ble mae'r sefydliad yn cwrdd i arddel ei gredoau ac sydd wedi'u gofrestru i'r diben hwnnw.

Opsiwn 2: Caniatáu sefydliadau cred digrefydd i weinyddu priodasau yn unrhyw le (heblaw am adeiladau crefyddol) sy'n golygu rhywbeth i'r cwbl, gan gynnwys yr awyr agored.

Opsiwn 3: Caniatáu sefydliadau cred digrefydd i weinyddu priodasau mewn 'canolfannau cymeradwy' (heblaw am adeiladau crefyddol), fel plastai neu westai.

Yn achos yr opsiynau hyn, rydym yn nodi bod angen ystyried y goblygiadau i sefydliadau cred digrefydd sydd heb eu hadeilad eu hunain ochr yn ochr â'r goblygiadau posibl o roi mwy o ryddid i sefydliadau cred na sydd gan y rhan fwyaf o sefydliadau crefyddol a'r rhai sydd â'r hawl i gynnal seremonïau sifil (pe baem yn caniatáu cyrff cred i gynnal seremonïau priodasol yn yr awyr agored, er enghraifft).

Dywed yr ymgynghoriad bod yn rhaid ystyried pa fesurau diogelu a threfniadau fyddai eu hangen pe bai'r gyfraith yn cael ei newid i ganiatáu priodasau cred, i sicrhau bod statws ac urddas priodas yn cael ei ddiogelu ac i leihau unrhyw risgiau a fyddai'n deillio o unrhyw newidiadau. Mae'r prif risgiau a nodwyd sy'n gysylltiedig â newid yn y gyfraith yw creu marchnad fasnachol yn anfwriadol ar gyfer gweinyddu priodasau (rhywbeth nad yw'r Llywodraeth am ei weld); ac atal priodasau dan orfod (lle nad yw un neu'r ddau barti'n cydsynio) a phriodasau ffug (lle nad yw'r briodas yn ddilys, am resymau mewn fudo'n aml).

Mae'r ymgynghoriad yn gofyn am sylwadau ar yr egwyddor o gyflwyno profion y byddai'n rhaid i sefydliad cred eu pasio cyn y gallai gofrestru ei swyddogion / gweinyddion i weinyddu priodasau, ac mae'n amlinellu pa fathau o brofion y gellid eu cyflwyno yng nghyd-destun yr hyn sydd ei angen yn awr yn achos sefydliadau crefyddol a chofrestryddion sifil. Hefyd, rydym yn gofyn am sylwadau ar yr egwyddor o ymestyn y mesurau diogelu y gall y Cofrestrydd Cyffredinol eu gweithredu yn achos sefydliadau crefyddol i gynnwys sefydliadau digrefydd. Yn hyn o beth, gallai rheoliadau bennu bod yn rhaid i gofrestrydd fod yn bresennol yn holl briodasau sefydliadau cred sydd newydd eu cofrestru yn ystod blwyddyn gyntaf eu cofrestrriad; ac y gellid ymestyn hyd y gofyniad hwn os oes pryderon ynglŷn â'u gweithdrefnau.

Pe bai seremonïau priodasol sefydliadau cred yn cael statws cyfreithiol, rydym yn rhoi amlinelliad byr o'r hyn y byddai deddfwriaeth yn ei wneud yn ofynnol i'w gynnwys mewn seremonïau o'r fath a'r hyn y byddai'n rhaid ei benderfynu yn hyn o beth; ac yn gofyn a ddylai priodasau gan sefydliadau cred gael eu cyfyngu i aelodau'r sefydliad cred (gydag eithriad posibl yn achos aelod sy'n priodi rhywun sydd â chredoau sy'n anghydawns â bod yn aelod ond sydd er hynny wedi'i awdurdodi gan y sefydliad cred i briodi mewn seremoni a gynhelir ganddo).

RHAN 1 – Diben yr ymgynghoriad a throsolwg

Noder: Mae'r cyfeiriadau yn yr ymgynghoriad hwn at ddarpariaethau yn Neddf Priodasau 1949 yn cyfeirio at y fersiwn o'r Ddeddf honno a ddiwygiwyd gan Ddeddf Priodasau (Cyplau o'r Un Rhyw) 2013.

Cyhoeddir yr ymgynghoriad hwn yn unol ag adran 14 Deddf Priodasau (Cyplau o'r Un Rhyw) 2013, sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol drefnu adolygiad i benderfynu a ddylid gwneud gorchymyn o dan yr adran honno i ganiatáu priodasau i gael eu gweinyddu'n ôl arferion sefydliadau cred digrefydd (ac os felly, pa ddarpariaethau a ddylid eu cynnwys), ac sy'n ei gwneud yn ofynnol i gynnal ymgynghoriad cyhoeddus llawn fel rhan o'r trefniadau.

Mae'r gyfraith ar weinyddu¹ priodasau yng Nghymru a Lloegr yn dod o dan Ddeddf Priodasau 1949 (Deddf 1949). Mae Deddf 1949 yn caniatáu seremonïau priodas crefyddol (priodas yn ôl defodau a seremonïau Eglwys Loegr a'r Eglwys yng Nghymru; arferion crefyddol yr Iddewon a Chymdeithas Grefyddol y Cyfeillion (y Crynwyr); a phriodasau'n ôl defodau unrhyw grefydd arall yn eu haddoldai sydd wedi'u cofrestru i'r diben hwnnw) a seremonïau priodasol sifil (priodasau a weinyddir ym mhresenoldeb cofrestrydd arolygol a chofrestrydd mewn swyddfa gofrestru neu adeiladau a gymeradwywyd i'r diben hwnnw, fel plastai neu westai). Yn y rhan fwyaf o achosion, mae lleoliad y briodas yn allweddol i'w dilysrwydd cyfreithiol).

Ar hyn o bryd, ni all Cymdeithas Dyneiddwyr Prydain (BHA) briodi cyplau mewn seremoni ddyneiddiol sydd â statws cyfreithiol yng Nghymru a Lloegr. Gallant, ar hyn o bryd, gynnal seremonïau'n unol â chredoau dyneiddiol ond nid oes gan y rhain rym cyfreithiol ac os yw'r partiön yn dymuno bod yn gyfreithlon briod rhaid iddynt briodi mewn seremoni sy'n cydymffurfio â darpariaethau Deddf 1949 (fel seremoni sifil gan gofrestrydd). Mae'r BHA yn ymgyrchu i newid y gyfraith i ganiatáu gweinyddion dyneiddiol² i gynnal seremonïau priodasol sydd â statws cyfreithiol yng Nghymru a Lloegr. Ers Mehefin 2005, o dan adran 12 Deddf Priodasau (yr Alban) 1977, mae Cofrestrydd Cyffredinol yr Alban wedi caniatáu awdurdodaeth dros dro i weinyddion dyneiddiol penodol i gynnal priodasau sydd â statws cyfreithiol. Mae Deddf Priodasau a Phartneriaethau Sifil (yr Alban) 2014 yn ymestyn categori "crefyddol" priodas i gynnwys "crefydd neu gred" ac felly bydd yn gosod dyneiddwyr a chyrrff cred eraill ar yr un telerau â sefydliadau crefyddol.

Yn ystod taith Deddf Priodasau (Cyplau o'r Un Rhyw) 2013 drwy'r Senedd cyflwynwyd nifer o welliannau i ganiatáu Cymdeithas Dyneiddwyr Prydain, ac o bosibl unrhyw sefydliad cred digrefydd arall³, i weinyddu priodasau. Wrth wrando ar a chydabod lefel y gefnogaeth a'r materion a godwyd yn ymwneud â phriodasau cred yn y dadleuon seneddol yn y ddau Dŷ, derbyniodd y Llywodraeth y dylid edrych ymhellach ar y mater.

¹ Mae gweinyddu'n cyfeirio at y seremoni sy'n ffurfio priodas rhwng dau unigolyn a gydnabyddir gan y gyfraith.

² Mae gweinyddion yn bobl sy'n cynnal seremonïau ffurfiol, yn enwedig priodasau.

³ Diffinnir sefydliad cred digrefydd yn adran 14 Deddf 2013 fel "sefydliadau sy'n datgan mai hyrwyddo system o gredoau sy'n gysylltiedig â moesoldeb neu foeseg yw eu prif neu eu hunig ddiben".

Mae adran 14 Deddf Priodasau (Cyplau o'r Un Rhyw) 2013 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol drefnu adolygiad i benderfynu a ddylid newid y gyfraith i gynnwys priodasau gan sefydliadau cred digrefydd, ac os felly, pa ddarpariaethau a ddylid eu gwneud. Rhaid i'r trefniadau ar gyfer yr adolygiad gynnwys ymgynghoriad cyhoeddus llawn a rhaid cyhoeddi adroddiad ar ganlyniad yr adolygiad erbyn 1 Ionawr 2015.

Mae'r ymgynghoriad hwn felly'n gofyn a oes dadl gref dros newid y gyfraith i ganiatáu sefydliadau cred digrefydd (fel Cymdeithas Dyneiddwyr Prydain) i weinyddu priodasau rhwng cyplau o rywiau gwahanol neu'r un rhyw ynteu a ddylid cadw'r drefn bresennol.

Rydym hefyd am glywed sylwadau ar ba sefydliadau fyddai'n cael eu cynnwys pe bai'r gyfraith yn newid, pe gwneir penderfyniad bod galw am newid o'r fath, a sut y dylid gweithredu newid o'r fath.

Mae **Rhan 2** y papur hwn yn cynnwys gwybodaeth am y mathau o seremonïau priodasol a ganiateir yng Nghymru a Lloegr ar hyn o bryd, ac ar Ddeddf Priodasau (Cyplau o'r Un Rhyw) 2013, gan gynnwys Adran 14 Deddf 2013 sy'n cynnwys darpariaeth i gynnal adolygiad i ystyried a ddylid cyflwyno deddfwriaeth i ganiatáu priodasau gan sefydliadau cred digrefydd.

Mae **Rhan 3** yn amlinellu'r prif ystyriaethau a'r cwestiynau sy'n codi wrth ystyried a ddylid diwygio'r gyfraith a'r arferion sy'n gysylltiedig â gweinyddu priodasau i hwyluso seremonïau priodas cred sydd â statws cyfreithiol a'r cwestiynau penodol y mae'r Llywodraeth am glywed eich barn arnynt.

Rydym wedi cynnal asesiad cychwynnol o effeithiau tebygol y cynigion ar gydraddoldeb. Mae Datganiad Cydraddoldeb wedi'i amgáu yn **Atodiad A**. Rydym yn croesawu sylwadau ar yr asesiadau posibl ar gydraddoldeb a hefyd unrhyw dystiolaeth neu wybodaeth a fydd yn helpu i oleuo ein dealltwriaeth a'n hasesiad o'r effeithiau.

Rydym hefyd wedi asesu'r costau a'r manteision economaidd posibl i'r sectorau cyhoeddus a phreifat a'r trydydd sector, yn seiliedig ar y gwahanol opsiynau a amlinellir yn yr ymgynghoriad. Amgaeir hwn yn **Atodiad B**.

Yn dilyn yr ymgynghoriad hwn, bydd mater caniatáu sefydliadau cred i weinyddu priodasau'n cael ei ystyried ymhellach yng ngoleuni'r ymatebion a gafwyd.

At bwy mae'r ymgynghoriad wedi'i anelu

Mae'r ymgynghoriad hwn wedi'i anelu at y cyhoedd yng Nghymru a Lloegr. Mae wedi'i anelu hefyd at sefydliadau cred digrefydd a sefydliadau crefyddol a'u haelodau, at y sawl sy'n darparu gwasanaethau priodasol a chanolfannau cymeradwy, awdurdodau lleol a chofrestryddion, a sefydliadau ac unigolion eraill sydd â diddordeb mewn gweinyddu priodasau yng Nghymru a Lloegr.

Cyfrinachedd

Gall gwybodaeth a roddir mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn, gan gynnwys gwybodaeth bersonol, gael ei chyhoeddi neu ei datgelu'n unol â'r trefniadau mynediad at wybodaeth (y prif rai yw Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 ("FOIA"), Deddf Diogelu Data 1998 ("DPA") a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004).

Os hoffech i'r wybodaeth a roddir gennych gael ei thrin yn gyfrinachol, dylech fod yn ymwybodol o fodolaeth Cod Ymarfer statudol o dan y FOIA, y mae'n rhaid i awdurdodau cyhoeddus gydymffurfio ag ef ac sy'n ymdrin, ymhlith pethau eraill, ag ymrwymadau cyfrinachedd. Gyda golwg ar hyn byddai'n fuddiol pe gallech egluro wrthym pam yr ydych o'r farn bod yr wybodaeth a roddir gennych yn gyfrinachol. Os bydd y Weinyddiaeth Cyfiawnder yn cael cais i ddatgelu'r wybodaeth bydd yn cadw eich eglurhad mewn cof, ond ni all roi sicrwydd y gall gadw cyfrinachedd ym mhob amgylchiad. Ni fydd ymwadiad cyfrinachedd a gynhrychir yn awtomatig gan eich system TG, ynddo'i hun, yn cael ei ystyried yn rhwym ar y Weinyddiaeth.

Bydd y Weinyddiaeth Cyfiawnder yn prosesu eich data personol yn unol â'r DPA ac yn y rhan fwyaf o achosion bydd hyn yn golygu na chaiff eich data personol ei ddatgelu i drydydd partion.

RHAN 2 – Cefndir

Y mathau o seremonïau priodasol a ganiateir yng Nghymru a Lloegr ar hyn o bryd

Mae Deddf Priodasau 1949 yn Ddeddf gydgrynhoi ac mae'r rhan fwyaf o'r gyfraith briodasau yng Nghymru a Lloegr yn dyddio'n ôl i 1836 pan ganiatawyd priodasau sifil am y tro cyntaf. Ac eithrio priodasau a gynhelir yn ôl defodau Eglwys Loegr a'r Eglwys yng Nghymru (sy'n amodol ar raghysbysiadau eglwysig megis darllen gostegion), mae bron pob priodas yn cael ei gweinyddu ar awdurdod dwy dystysgrif cofrestrydd arolygol sy'n tystio bod y ddau barti'n gwmwys i briodi ei gilydd.⁴

Mae Deddf 1949 yn nodi'r drefn a'r adeilad lle gellir cynnal seremoni briodasol. Mae'n cynnwys seremonïau sifil; priodasau'n ôl defodau a seremonïau Eglwys Loegr a'r Eglwys yng Nghymru; priodasau'n ôl arferion Iddewon a Chymdeithas Grefyddol y Cyfeillion (Crynwyr); a phriodasau'n ôl defodau crefyddol eraill (er enghraifft, Catholigion, Methodistiaid a Mwslimiaid), mewn addoldy a gofrestrwyd i'r diben hwnnw. Mae Deddf Priodasau (Cyplau o'r Un Rhyw) 2013 wedi diwygio Deddf 1949 i alluogi cyplau o'r un rhyw i briodi mewn seremoni sifil neu seremoni grefyddol os yw'r sefydliad crefyddol wedi dewis cynnal priodasau rhwng cyplau o'r un rhyw. Mae'r lleoliad ble cynhelir seremoni briodasol yn hanfodol fel arfer i ddilysrwydd cyfreithiol y briodas honno. Rhaid cynnal priodasau mewn swyddfa gofrestru, canolfan gymeradwy (fel gwesty), eglwys neu gapel Eglwys Loegr neu'r Eglwys yng Nghymru, adeilad sydd wedi'i gofrestru fel addoldy ac sydd wedi'i gofrestru i ddiben gweinyddu priodasau, neu gapeli'r llynges, y fyddin neu'r awyrlu. Eithriadau yw priodasau a gynhelir yng nghartref rhywun sy'n gaeth i'w cartref, sydd wedi'u caethiwo, neu rywun sy'n ddifrifol wael ac nad oes disgwyl iddynt wella.

Nid oes yn rhaid, fodd bynnag i aelodau'r ffydd Iddewig na Chymdeithas Grefyddol y Cyfeillion (Crynwyr) gofrestru eu haddoldai ar gyfer seremonïau priodasol a gallant gynnal priodasau'n ôl eu defodau yn unrhyw le, gan gynnwys yr awyr agored. Mae hyn yn adlewyrchu datblygiad y gyfraith briodasol yng Nghymru a Lloegr, ac mae'n ganlyniad trefniadau sy'n dyddio'n ôl dros 250 o flynyddoedd pan wnaethpwyd darpariaethau a oedd yn caniatáu Iddewon a Chrynwyr i gynnal priodasau cyfreithlon y tu allan i'r Eglwys Anglicanaidd. Mae'r darpariaethau hyn wedi'u cadw yn y gyfraith bresennol er nad oes dim darpariaethau i roi'r un hyblygrwydd i seremonïau priodasol crefyddol neu sifil eraill.

Rhaghysbysiadau cyfreithiol

Mae priodasau Eglwys Loegr a'r Eglwys yng Nghymru fel arfer yn dilyn y rhaghysbysiadau a amlinellir yn Rhan 2 Deddf Priodasau 1949. Os yw cwpl yn dymuno gweinyddu eu priodas yn dilyn cyhoeddi gostegion, rhaid iddynt roi rhybudd ysgrifenedig i glerigwyr yn yr eglwys ble maent yn dymuno priodi. Mae'r gostegion wedyn yn cael eu cyhoeddi mewn datganiad yn ystod gwasanaeth yn yr eglwys ar dri Sul cyn gweinyddu'r briodas. Rhaid i'r gostegion gael eu darllen yn y plwyf ble mae pob parti'n byw, yn ogystal â'r eglwys ble

⁴ Mae cofrestrydd arolygol (SR) yn swyddog statudol y gwasanaeth cofrestru lleol yng Nghymru a Lloegr. Mae gan y SR warchodaeth gyfreithiol am bob tystysgrif geni, priodi a marw yr ardal leol; mae'n gyfrifol am raghysbysiadau cyfreithiol priodasau ar gyfer preswylwyr yr ardal; ac mae'n gweinyddu mewn priodasau sifil mewn swyddfa gofrestru neu mewn canolfannau cymeradwy.

byddant yn priodi os yw honno mewn man arall. Ar ôl cwblhau'r gostegion gall y briodas gael ei gweinyddu yn un o'r eglwysi ble cyhoeddwyd y gostegion. Mae dilysrwydd y gostegion yn para tri mis o'r dyddiad cwblhau. Ar ôl cynnal y briodas, rhaid i'r clerigwr a weinyddodd y briodas ei chofrestru yn y llyfrau cofrestru priodasau ar gyfer yr eglwys a gyflenwyd gan y Cofrestrydd Cyffredinol⁵.

Yn achos unrhyw briodas arfaethedig ble mae un parti'n wladolyn o'r tu allan i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd (EEA), rhaid i'r cwpl wneud cais am drwydded gyffredin yn unol â'r trefniadau a roddwyd ar waith i ddelio â'r achosion hyn gan ganghellor yr esgobaeth. Cyn cyhoeddi'r dystysgrif gyffredin, rhaid i'r unigolyn sy'n gyfrifol am roi'r drwydded gael llythyr gan y gweinidog sy'n bwriadu cynnal y briodas yn datgan ei fod ef neu hi wedi cwrdd â'r ddau barti (ar nifer o achlysuron os yn bosibl, ac o leiaf unwaith yn eu cartref) a'i fod, ar ôl trafod y briodas â hwy, yn fodlon bod y briodas yn un ddilys a'i fod ef neu hi'n hapus i gynnal y briodas.

Os yw cwpl yn dymuno i'w priodas gael ei gweinyddu ar awdurdod tystysgrifau cofrestrydd arolygol, rhaid iddynt roi rhybudd o briodas yn yr ardal gofrestru ble maent yn byw (rhaid iddynt fod wedi preswyllo yno am 7 diwrnod). Nid dyma'r achos, fodd bynnag, i rai sy'n destun rheolaeth fewnfudo, a rhaid iddynt hwy fynd i swyddfa gofrestru ddynodedig. Pan roddir rhybudd bydd y cofrestrydd arolygol yn ffeilio'r rhybudd o briodas ac yn cofnodi'r manylion yn y llyfr hysbysiadau priodas. Mae'r cyfnod hysbysu yn 15 diwrnod ar hyn o bryd (bydd hyn yn newid i 28 diwrnod pan ddaw Deddf Mewnfudo 2014 i rym).⁶ Ar ddiwedd y cyfnod aros hwn, ac os na chafwyd gwrthwyneb, bydd y cofrestrydd arolygol yn cyhoeddi'r dystysgrifau a fydd yn caniatáu i'r briodas gael ei gweinyddu. Mae dilysrwydd yr hysbysiad yn para am 12 mis ar ôl ei gyhoeddi.

Diben y cyfnod hysbysu a'r gostegion yw rhoi cyfle i wrthwynebu'r briodas.

Yn ogystal â chydymffurfio â'r gweithdrefnau priodol a ddisgrifir uchod, er mwyn i briodas fod yn un ddilys yng Nghymru a Lloegr, rhaid cydymffurfio â gofynion cyfreithiol penodol⁷ a rhaid i'r briodas gael ei gweinyddu gan un o'r seremonïau a amlinellir isod. Ac eithrio priodasau Iddewon a Chrynwyr, rhaid i seremonïau gynnwys y datganiadau statudol a geiriau'r contract. Yng Nghymru a Lloegr y canlynol fel arfer yw'r datganiad statudol (ceir fersiynau ychydig yn wahanol sydd â'r un ystyr): "Yr wyf yn datgan na wn i am unrhyw rwystr cyfreithlon pam na allaf fi __uno mewn glân briodas â __". Dilynir hyn gan "Galwaf ar y sawl sy'n bresennol i dystio fy mod i __yn dy gymryd di __ yn ŵr / wraig i mi."

⁵ Y Cofrestrydd Cyffredinol yw Pennaeth y Swyddfa Gofrestru Gyffredinol (GRO). Mae'r GRO yn rhan o Swyddfa Basbort Ei Mawrhydi a chofrestru sifil tramor yng Nghymru a Lloegr. Mae'r GRO yn cadw cofnod o bob genediggaeth, priodas a marwolaeth sy'n dyddio'n ôl i 1837.

⁶ Mae Deddf Mewnfudo 2014 yn cyflwyno cynllun cyfeirio ac ymchwilio newydd i fynd i'r afael â phriodasau ffug a bydd yn cynyddu cyfnod hysbysu priodasau a phartneriaethau sifil i 28 diwrnod yng Nghymru a Lloegr.

⁷ Rhaid i bob parti gydymffurfio â gofynion oedran penodol (ni chaiff rhai o dan 16 oed briodi; gall rhai o dan 18 oed briodi gyda chydysyniad eu rhieni) a gofynion galluedd meddyliol; ni chaniateir i'r bartïon fod yn berthnasau gwaed agos nac o fewn y graddfeydd perthynas gwaharddedig a amlinellir yn Atodlen 1 Deddf Priodasau 1949; ni ddylai'r naill barti fod mewn priodas neu bartneriaeth sifil gyfredol ddilys; rhaid i'r partion ddeall natur contract y briodas maent yn ymrwymo iddi; a rhaid cyflawni gofynion penodol.

Seremonïau

Seremonïau sifil

Gellir cynnal seremonïau sifil mewn swyddfa gofrestru neu mewn canolfan gymeradwy ym mhresenoldeb cofrestrydd arolygol a chofrestrydd. Gall perchennog neu ymddiriedolwr adeilad wneud cais i'r awdurdod lleol ble mae'r adeilad wedi'i leoli i'w gofrestru i weinyddu priodasau. Rhaid i'r awdurdod lleol gymeradwyo'r ganolfan os yw'r adeilad yn:

- ganolfan weddus ac urddasol;
- ar gael yn rheolaidd at ddefnydd y cyhoedd ar gyfer priodasau a phartneriaethau sifil;
- yn gallu cydymffurfio â'r gofynion iechyd a diogelwch perthnasol.

Pan fydd adeilad wedi'i gymeradwyo gan yr awdurdod lleol nid oes cyfyngiadau ar bwy all briodi yno, ar yr amod y cydymffurfir â'r gofynion cyfreithiol. Ni cheir defnyddio cynnwys crefyddol mewn seremoni sifil, rhaid iddi fod yn gwbl seciwlar ei natur, ond gellir ymgorffori cyffyrddiadau personol gan gynnwys rhai sy'n adlewyrchu gwerthoedd a chredoau digrefydd.

Y cofrestrydd sy'n gyfrifol am sicrhau bod rhaghybysyddau crefyddol y briodas wedi'u cwblhau'n gywir. Ar ôl gweinyddu'r briodas, rhaid i'r cofrestrydd gofnodi manylion y briodas yn ei lyfr cofrestru priodasau.

Seremonïau crefyddol

Gall sefydliadau crefyddol (heblaw Eglwys Loegr neu'r Eglwys yng Nghymru, y mae eu hamgylchiadau'n wahanol mewn cyfraith briodasol am resymau hanesyddol fel yr eglwys wladol, a Chymdeithas Grefyddol y Cyfeillion a'r grefydd Iddewig, sydd wedi'u heithrio) weinyddu priodasau ar yr amod bod y briodas yn cael ei gweinyddu mewn adeilad a gofrestrwyd i'r diben hwnnw ym mhresenoldeb unigolyn awdurdodedig neu gofrestrydd. Mae unigolion awdurdodedig fel arfer yn aelodau o'r gymuned grefyddol (weithiau'r gweinidog neu'r clerigwr a fydd yn cynnal y seremoni briodasol), a benodwyd gan y sefydliad crefyddol i ymgymryd â swyddogaethau'r cofrestrydd. Y grefydd dan sylw fydd yn penderfynu pwy gaiff briodi mewn adeiladau crefyddol cofrestredig. Er mwyn i adeilad fod wedi'i gofrestru i gynnal priodasau rhaid iddo fod wedi'i ardystio fel addoldy o dan Ddeddf Cofrestru Addoldai 1855.⁸

Y sefydliad crefyddol fydd yn penderfynu pwy sy'n cynnal y seremoni briodasol. Gall y briodas gael ei chynnal yn unol ag unrhyw ddefodau neu seremonïau'r corff crefyddol y mae'r cwpl a'r unigolyn a fydd yn cynnal y seremoni briodasol yn cytuno i'w defnyddio, ar yr amod eu bod wedi cael cydsyniad y gweinidog neu ymddiriedolwyr yr adeilad. Hefyd, mewn rhyw ran o'r seremoni ym mhresenoldeb dau dyst, rhaid i'r cwpl ddweud y geiriau o ddatganiad a chontract wrth ei gilydd fel y nodir yn Neddf 1949. Ni cheir gwahanu'r geiriau hyn oddi wrth y seremoni a rhaid iddynt fod yn rhan ganolog ohoni.

⁸ Mae Deddf 1855 yn datgan bod yn rhaid i adeilad gael ei ddefnyddio fel man cwrdd ar gyfer addoliad crefyddol gan gynulleidfa neu gynulliad o bobl.

Rhaid i'r briodas gael ei chofrestru gan gofrestrydd neu unigolyn awdurdodedig. Os yw'r adeilad newydd ei gofrestru, rhaid i gofrestrydd fod yn bresennol ym mhob priodas am y flwyddyn gyntaf ar ôl cofrestru'r adeilad. I benodi unigolyn awdurdodedig, rhaid i ymddiriedolwyr neu gorff llywodraethu'r adeilad cofrestredig gadarnhau enw a chyfeiriad yr unigolyn maent yn dymuno ei awdurdodi wrth y Cofrestrydd Cyffredinol ac wrth gofrestrydd arolygol yr ardal ble mae'r adeilad wedi'i leoli. Bydd cofrestrau priodas dyblyg yn cael eu cadw gan yr unigolyn awdurdodedig yn yr adeilad cofrestredig gyda cofrestrau'n cael eu hanfon at y cofrestrydd arolygol yn chwarterol.

Am resymau hanesyddol, mae'r sawl sy'n priodi'n ôl arferion yr Iddewon a Chymdeithas Grefyddol y Cyfeillion (Crynwyr) wedi'u heithrio o'r amodau a orfodir yn awr ar rai sy'n priodi'n ôl pob defod grefyddol arall. Nid oes yn rhaid i seremonïau priodasol Crynwyr nac Iddewon ddefnyddio geiriau rhagnodedig o ddatganiad a chontract; ac nid oes yn rhaid i adeiladau lle mae priodasau Crynwyr ac Iddewon yn cael eu gweinyddu gael eu cofrestru. Mae hyn yn golygu y gall priodasau o'r fath gael eu cynnal yn unrhyw le, gan gynnwys yr awyr agored, er y bydd yn rhaid i'r cwpl nodi'r lleoliad pan fydd hysbysiadau o briodas yn cael eu rhoi. Dim ond unigolion sy'n aelodau o Gymdeithas Grefyddol y Cyfeillion neu sydd wedi'u hawdurdodi gan Gymdeithas Grefyddol y Cyfeillion all briodi mewn seremonïau Crynwyr. Dim ond rhwng dau unigolyn sy'n arddel y grefydd Iddewig y gellir gweinyddu priodasau Iddewig. Mae'r briodas yn cael ei chofrestru yn y cofrestrau dyblyg a gedwir gan Ysgrifennydd y Synagog neu'r swyddog cofrestru a benodir gan Glerc Cofnodion Cymdeithas Grefyddol y Cyfeillion.

Adran 14 Deddf Priodasau (Cyplau o'r Un Rhyw) 2013

Mae Deddf Priodasau (Cyplau o'r Un Rhyw) 2013 ("Deddf 2013") yn gwneud priodas cyplau o'r un rhyw yn gyfreithlon yng Nghymru a Lloegr. Bydd y Ddeddf yn galluogi partneriaid sifil i newid eu partneriaeth i briodas os ydynt yn dymuno, a bydd unigolion priod yn gall newid eu rhyw cyfreithlon heb orfod terfynu eu priodas, er nad yw'r darpariaethau hyn mewn grym eto. Er y bydd partneriaid sifil yn gallu newid eu partneriaeth i briodas, bydd partneriaethau sifil yn parhau i gael eu cydnabod fel undeb cyfreithlon a bydd modd ffurfio partneriaethau sifil newydd.

Yn ystod taith seneddol Deddf 2013 cyflwynwyd nifer o welliannau gan yr wrthblaid i ganiatáu Cymdeithas Dyneiddwyr Prydain, ac o bosibl unrhyw sefydliad cred digrefydd arall, i weinyddu priodasau. Nid oedd y Llywodraeth wedi ymgynghori ar briodasau cred fel rhan o'i hymgyngoriad ar briodas cyplau o'r un rhyw ac roedd yn teimlo y dylai ymgynghoriad cyhoeddus gael ei gynnal cyn gwneud penderfyniad ar ddiwygio'r gyfraith briodasol ymhellach yn hyn o beth. Cyflwynodd y Llywodraeth welliant i'r Bil sy'n ei wneud yn ofynnol i gynnal adolygiad ac ymgynghoriad statudol i benderfynu a ddylai sefydliadau cred gael eu caniatáu i weinyddu priodasau ar awdurdod tystysgrifau a gyhoeddir gan gofrestrwyr arolygol. Diffinnir "sefydliad cred" fel sefydliadau sy'n datgan mai hyrwyddo system o greddau sy'n gysylltiedig â moesoldeb neu foeseg yw eu prif neu eu hunig ddiben.⁹

⁹ Mae Adran 14(7) Deddf 2013 yn datgan y canlynol o ran priodasau yn ôl defnydd ac arferion sefydliadau cred:

(1) Rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol drefnu adolygiad i ganfod

(a) a ddylid gwneud gorchymyn o dan is-adran (4) i ganiatáu priodasau'n unol â defnydd ac arferion sefydliadau cred i gael eu gweinyddu ar awdurdod tystysgrifau cofrestrydd arolygol, ac

-
- (b) os felly, pa ddarpariaeth ddylai gael ei chynnwys yn y gorchymyn.
- (2) Rhaid i'r trefniadau a wneir gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan is-adran (1) sicrhau bod yr adolygiad yn cynnwys ymgynghoriad cyhoeddus llawn.
- (3) Rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol drefnu bod adroddiad ar ganlyniad yr adolygiad yn cael ei gynhyrchu a'i gyhoeddi cyn 1 Ionawr 2015.
- (4) Gall yr Ysgrifennydd Gwladol wneud darpariaeth drwy orchymyn ar gyfer ac mewn cysylltiad â chaniatáu priodasau'n unol â defnydd ac arferion sefydliadau cred i gael eu gweinyddu ar awdurdod tystysgrifau cofrestrwydd arolygol.
- (5) Gall gorchymyn o dan is-adran (4) –
- (a) ddiwygio unrhyw ddeddfwriaeth sy'n weithredol yng Nghymru a Lloegr
 - (b) gwneud darpariaeth ar gyfer codi tâl
- (6) Rhaid i orchymyn a wneir o dan is-adran (4) ddatgan na ellir defnyddio gwasanaeth crefyddol mewn priodas a weinyddir yn rhinwedd y gorchymyn.
- (7) Yn yr adran hon mae "sefydliad cred" yn golygu "sefydliadau sy'n datgan mai hyrwyddo system o gredoau sy'n gysylltiedig â moesoldeb neu foeseg yw eu prif neu eu hunig ddiben".

RHAN 3 – Ystyriaethau a chwestiynau’r ymgynghoriad

Mae’r Rhan ganlynol yn cyflwyno’r ystyriaethau a’r cwestiynau penodol y mae’r Llywodraeth am glywed eich barn arnynt.

1. Gweinyddu priodasau gan sefydliadau cred: a oes dadl gref dros newid?

Mae angen ystyried y dadleuon o blaid caniatáu sefydliadau cred digrefydd i weinyddu priodasau yng Nghymru a Lloegr ochr yn ochr â goblygiadau ehangach agwedd newydd at briodas a system reoleiddio newydd. Yn yr Alban mae’r gyfraith wedi’i newid i ganiatáu priodasau dyneiddiol a chred eraill, ond dylid nodi bod hyn yn digwydd o fewn system ble mae’r “model gweinyddion” ar gyfer priodasau’n bodoli.¹⁰ Yng Nghymru a Lloegr mae gennym system wahanol gyda mesurau diogelu gwahanol lle mae gweinyddu a chofrestru priodasau’n seiliedig yn bennaf ar gofrestru adeiladau. Os ydym am gyflwyno newid bydd yn rhaid gwneud yn siŵr ein bod wedi ystyried yn ofalus beth fydd hyn yn ei olygu i’n system ni a’n bod wedi ystyried yr holl safbwyntiau ar y mater.

Wrth lunio’r papur ymgynghori hwn roedd y Llywodraeth yn ymwybodol o’r safbwyntiau a fynegwyd gan Aelodau Seneddol ac Arglwyddi yn ystod dadleuon Seneddol ar Ddeddf Priodasau (Cyplau o’r Un Rhyw) 2013 ar briodasau cred, yn ogystal â barn dyneiddwyr a rhanddeiliaid allweddol eraill.

Y prif egwyddorion sy’n sail i’r ymgynghoriad hwn yw:

- os oes awydd i newid, dylid rhoi rhesymau eglur dros yr angen am seremonïau cred digrefydd ochr yn ochr â seremonïau crefyddol a sifil;
- yr angen i ddiogelu statws ac urddas penodol priodas mewn cymdeithas a rheoli unrhyw risg a all ddeillio o newid y gyfraith (er enghraifft, o safbwynt y broblem o atal priodasau dan orfod a phriodasau ffug);
- o gofio ein system o gofrestru adeiladau ar gyfer gweinyddu priodasau, a’r ffaith nad oes gan ddyneiddwyr adeiladau sy’n gysylltiedig â’u credoau (a gall hyn fod yn wir hefyd yn achos cyrff cred eraill sy’n gallu cyflawni’r meini prawf i weinyddu priodasau), mae angen ystyried ble byddai priodasau cred yn cael eu cynnal a goblygiadau hynny i gyfraith ac arferion priodasol; a’r

¹⁰ Yn yr Alban mae creu priodas sydd â statws cyfreithiol yn seiliedig ar *weinydd* sy’n cael ei awdurdodi gan Gofrestrydd Cyffredinol (RG) yr Alban yn hytrach na chofrestru *adeiladau*. Er Mehefin 2005, o dan adran 12 Deddf Priodasau (yr Alban) 1977, mae RG yr Alban wedi caniatáu awdurdodaeth dros dro i weinyddion dyneiddiol penodol i gynnal priodasau a gydnabyddir gan y gyfraith (nid yw hyn ar gael yng Nghymru a Lloegr am nad oes adran 12 cyfatebol yn Neddf Priodasau 1949). Ar hyn o bryd mae pum sefydliad yn cynnal seremonïau priodasol dyneiddiol yn yr Alban. Mae Deddf Priodasau a Phartneriaethau Sifil (yr Alban) 2014 yn ymestyn categori “crefyddol” priodas i gynnwys “crefyddol neu gred” i ganiatáu priodasau dyneiddiol a chredoau digrefydd eraill, i sicrhau parhad yn enw da seremonïau priodasol yn yr Alban, ac yn sgil pryderon cynyddol ynghylch priodasau ffug a phriodasau dan orfod, bydd y Ddeddf hefyd yn cyflwyno profion y bydd yn rhaid i gyrff crefyddol a ffydd ei pasio cyn y gellir awdurdodi gweinyddion y corff i weinyddu priodas neu gofrestru partneriaeth sifil.

- angen i sicrhau nad ydym yn tanseilio amddiffyniadau crefyddol sy'n hanfodol i'r ddeddfwriaeth a ddaeth i rym yn ddiweddar i alluogi priodasau cyplau o'r un rhyw.

Mae cyplau sy'n ddyneiddwyr, fel cyplau eraill nad ydynt yn dymuno cael priodas grefyddol, yn gallu dewis priodas sifil naill ai mewn swyddfa gofrestru neu mewn canolfan gymeradwy. Gall seremoni sifil ymgorffori elfennau personol (digrefydd) fel cynnwys pobl eraill yn y seremoni, ysgrifennu llwon personol, a dewis darlleniadau neu ganeuon, gan gynnwys rhai sy'n adlewyrchu gwerthoedd a chredoau digrefydd. Os ydynt yn dymuno, gall cyplau hefyd gael bendith neu seremoni ar wahân ar ôl y seremoni briodasol sifil.

Mae Cymdeithas Dyneiddwyr Prydain (BHA) yn cynnig seremonïau priodasol dyneiddiol yng Nghymru a Lloegr nad ydynt yn rhwym mewn cyfraith, a dywed y Gymdeithas nad yw tua 20% o'r cyplau y darperir y seremonïau hyn ar eu cyfer yn cael seremoni sifil arall sy'n gyfreithlon ddilys.¹¹

Mae'r rhai sy'n cefnogi newid yn y gyfraith yn dadlau bod dyneiddwyr, ac eraill hefyd o bosibl sy'n arddel system o gredoau digrefydd, o dan anfantais am nad ydynt yn cael eu trin yn yr un ffordd â rhai sydd â chredoau crefyddol sy'n gallu priodi mewn seremonïau sydd â statws cyfreithiol ac sy'n adlewyrchu eu credoau ac sy'n cael eu cynnal gan weinyddion sy'n rhannu eu crefydd (er bod seremonïau sifil yn gallu ymgorffori elfennau personol digrefydd rhaid iddynt gael eu gweinyddu ym mhresenoldeb cofrestrydd arolygol a chofrestrydd).

Rhaid ystyried a yw'r gyfraith / priodasau sifil presennol yn darparu'n ddigonol ar gyfer cyplau â chredoau dyneiddiol a digrefydd eraill, o gofio bod cyplau ag ystod o gredoau digrefydd yn gallu priodi mewn seremonïau sifil y gallant ychwanegu elfennau personol atynt, sy'n gallu cynnwys llwon personol (digrefydd) sy'n seiliedig ar eu credoau. Mae'r BHA yn dadlau bod seremoni ddyneiddiol yn fwy na, ac yn wahanol, i achlysur seciwlar, gydag oddeutu 80% o gyplau sydd wedi cael priodas a gynhaliwyd gan y BHA yn dewis cael priodas ddyneiddiol yn ychwanegol at seremoni sifil gyfreithlon; a'i fod yn berthnasol nad yw'r cofrestrydd o reidrwydd, faint bynnag o gydymdeimlad sydd ganddo, yn rhannu'r un credoau â'r cwpl.¹²

Mae cefnogwyr seremonïau priodasol cred digrefydd yn dadlau bod galw gwirioneddol am briodasau o'r fath. Yn ôl y BHA cafodd dros 600 o seremonïau priodasol nad oedd yn rhwym mewn cyfraith eu cynnal gan weinyddion dyneiddiol yng Nghymru a Lloegr yn 2013. Yn yr Alban mae cyfran y priodasau dyneiddiol wedi codi ers rhoi cydnabyddiaeth gyfreithiol iddynt yn 2005, gyda 3052 o briodasau o'r fath yn cael eu cynnal yn 2013 (sef 10% o briodasau).¹³

Er mai'r BHA fu fwyaf gweithgar mewn ymgyrchu dros newid yn y gyfraith, mae'n bosibl bod sefydliadau cred digrefydd eraill a hoffai gynnal seremonïau priodasol.

¹¹ Cyflwyniad BHA i'r MoJ mewn ymateb i Ddeddf Priodasau (Cyplau o'r Un Rhyw), Medi 2013.

¹² Mae'r BHA wedi cyflwyno tystiolaeth i'r Llywodraeth gan gyplau sydd wedi cael priodasau dyneiddiol a seremonïau sifil yng Nghymru a Lloegr. Mae cyplau'n disgrifio pa mor bwysig ac ystyrion ydoedd iddynt i gael seremoni a oedd yn cael ei chynnal gan weinydd dyneiddiol mewn lleoliad a oedd yn adlewyrchu eu credoau'n llwyr ac a oedd yn bersonol iddynt hwy. Dywedodd rhai cyplau bod eu priodas mewn swyddfa gofrestru yn anghyfleustra ac yn gost ychwanegol, a mynegodd nifer dristwch a siom nad oedd diwrnod eu priodas ar bapur yr un fath â diwrnod eu seremoni Ddyneiddiol.

¹³ Tabl 7.5 - <http://www.gro-scotland.gov.uk/statistics/theme/vital-events/general/ref-tables/2012/section-7-marriages-and-civil-partnerships.html>

Wrth ystyried a oes dadl dros ddiwygio'r gyfraith i gynnwys gweinyddu priodasau i gynnwys grŵp mwy, sydd heb ei ddiffinio'n bendant ar hyn o bryd, o fudiadau a gweinyddion, mae angen i ni ystyried sut y gallwn warchod statws ac urddas penodol priodas mewn cymdeithas a hefyd lleihau unrhyw risgiau a all ddeillio o hynny. Mae'r risgiau posibl a sut y gellid eu rheoli wedi'u rhoi yn adran 3 y rhan hwn o'r papur sy'n edrych ar oblygiadau arferion priodi.

Mae'r prif risgiau a nodwyd yn ymwneud â newid yn y gyfraith a fyddai'n anfwriadol yn creu marchnad fasnachol ar gyfer gweinyddu priodasau (rhywbeth nad yw'r Llywodraeth am ei wneud); ac atal priodasau dan orfod (lle nad yw un neu'r ddau barti'n cydsynio) a phriodasau ffug (lle nad yw'r briodas yn un o ddifrif, a hynny'n aml i ddibenion mewnfudo). Mae angen ystyried hefyd y goblygiadau o roi mwy o ryddid posibl i sefydliadau cred na'r hyn sydd gan y rhan fwyaf o sefydliadau crefyddol ac a ganiateir i seremonïau sifil (pe baem yn caniatáu cyrff cred i gynnal seremonïau priodasol yn yr awyr agored, er enghraifft).

Wrth feddwl am wneud unrhyw newidiadau deddfwriaethol pellach, rhaid i ni hefyd ystyried newidiadau diweddar a wnaethpwyd yn sgil Deddf Priodasau (Cyplau o'r Un Rhyw) 2013 ("Deddf 2013") i ganiatáu priodasau rhwng cyplau o'r un rhyw, ac y mae rhai elfennau ohoni'n dal yn y broses o gael eu gweithredu. Mae hyn yn cynnwys yr angen i gadw'r darpariaethau hynny o fewn Deddf 2013 sy'n gwarchod sefydliadau crefyddol nad ydynt yn dymuno priodi cyplau o'r un rhyw ar yr un pryd â galluogi'r rhai sy'n dymuno gwneud hynny.

Cwestiwn 1: A oes dadl gref o blaid newid y gyfraith i sefydlu seremonïau cred digrefydd fel trydydd math o seremoni gyfreithiol, ochr yn ochr â seremonïau crefyddol a sifil, ar gyfer priodi yng Nghymru a Lloegr?

2. Pa sefydliadau sydd â'r gallu i gyflawni'r meini prawf ar gyfer galluogi sefydliadau cred i weinyddu priodasau?

Y man cychwyn ar gyfer penderfynu pa sefydliadau a fyddai'n gallu cynnal seremonïau priodasol cred pe bai'r gyfraith yn cael ei newid yw'r diffiniad a roddir yn adran 14(7) Deddf Priodasau (Cyplau o'r Un Rhyw) 2013. Mae'r Ddeddf yn diffinio sefydliad cred, i ddibenion yr adolygiad hwn, fel:

“sefydliadau sy'n datgan mai hyrwyddo system o gredoau sy'n gysylltiedig â moesoldeb neu foeseg yw eu prif neu eu hunig ddiben”.

Rhan o ddiben yr ymgynghoriad hwn yw canfod barn am ba sefydliadau, yn ychwanegol at ddyneiddwyr, sydd â'r gallu i gyflawni'r meini prawf fel yr amlinellir hwy yn adran 14 Deddf 2013, ac a ddylid cyfyngu ar y diffiniad.

Mae'r diffiniad yn eithrio pob math o sefydliad crefyddol gan gynnwys crefyddau nad ydynt yn rhai theïstaidd¹⁴ fel Seientoleg, boed y sefydliadau hyn wedi'u cofrestru ar hyn o bryd i weinyddu priodasau o dan Ddeddf Cofrestru Addoldai 1855. Mae cyfraith briodasol yn gwahaniaethu rhwng addoli crefyddol a 'chred' seciwlar, ac oherwydd hyn nid oes modd i ddyneiddwyr na sefydliadau cred digrefydd gofrestru canolfannau o dan Ddeddf 1855.

¹⁴ Nid yw crefyddau nad ydynt yn rhai theïstaidd yn credu mewn duw neu dduwiau.

Barn gychwynnol y Llywodraeth yw, pe byddai priodasau gan sefydliadau cred yn cael eu caniatáu, na fyddem yn dymuno cynnwys sefydliadau masnachol (nac unrhyw un arall) nad yw'n gorff cred gwirioneddol ond a fyddai'n ymdrechu i wneud elw ariannol yn sgil newid i'r rheoliadau.¹⁵ Efallai y bydd y diffiniad o Ddyneiddiaeth, ac o bosibl systemau cred digrefydd eraill, a roddir yn Adran 14 yn gallu cynnwys mathau eraill o sefydliadau na fyddai, ym marn y Llywodraeth, yn briodol i weinyddu priodasau, er enghraifft sefydliadau ymgyrchu neu sefydliadau sy'n hyrwyddo achos.

Yn ddibynnol ar fath ac ystod y grwpiau a allai gwrdd â'r diffiniad o sefydliad cred, gallai fod yn briodol i ychwanegu cyfyngiadau ychwanegol ar gyfer y rhai sy'n gallu gweinyddu priodasau. Yn adran 3 y rhan hon o'r papur rydym yn nodi ystyriaethau sy'n ymwneud â chyflwyno mesurau diogelu o fewn arferion priodi pe byddai priodasau cred yn cael eu caniatáu, ac yn gofyn am eich barn ar yr egwyddor o gyflwyno profion neu feini prawf penodol ar gyfer sefydliadau cred fel rhan o broses awdurdodi. Mae hyn yn cynnwys, er enghraifft, ystyried a ddylai fod yn ofynnol i sefydliad cred sy'n gallu gweinyddu priodasau fod â statws elusennol yn ôl y rheoliadau. Byddai'n rhaid i sefydliadau o'r fath fod o fudd i'r cyhoedd (yn hytrach na bod o fudd i unigolion penodol yn bennaf) ac ni fyddai diben gwleidyddol yn cael ei ganiatáu (er o dan y gyfraith elusennau, caniateir elusen i ymgymryd â gweithgarwch gwleidyddol i hyrwyddo diben elusennol).

Cwestiwn 2: Pa sefydliadau heblaw dyneiddwyr all fod yn alluog i gydymffurfio â'r diffiniad a geir yn Adran 14 Deddf Priodasau (Cyplau o'r Un Rhyw) 2013, ac ar ba sail?

Cwestiwn 3: Pe byddai'r Llywodraeth yn newid y gyfraith, a ydych chi'n credu y dylid ychwanegu meini prawf penodol i gyfyngu ar y diffiniad yn adran 14 er mwyn sicrhau bod y mathau o sefydliadau a all weinyddu priodasau cred digrefydd yn briodol? Os felly, pa fathau o sefydliadau a dybiwch chi sy'n amhriodol?

3. Yr effaith ar arferion priodasol

Mae priodas yn sefydliad pwysig sy'n effeithio ar hawliau ac ymrwymïadau cyfreithiol ac felly mae'n briodol y dylem reoleiddio *ble* gellir gweinyddu priodasau yn ogystal â phwy all weinyddu priodasau ac, i ryw raddau, *sut* y mae priodasau'n cael eu gweinyddu. Rhaid ystyried pa fesurau diogelu a threfniadau fyddai eu hangen pe bai'r gyfraith yn cael ei newid i ganiatáu priodasau cred, i sicrhau bod statws ac urddas priodas yn cael ei warchod a bod yr ymrwymiad cyfreithiol pwysig a wneir drwy briodas yn parhau i gael ei reoleiddio a'i gofnodi'n briodol.

Byddai'n rhaid i reoliadau gynnwys gofynion sylfaenol ar gyfer cymeradwyo sefydliad a'i weinyddion, gweithdrefnau ar gyfer cyhoeddi a chadw llyfrau cofrestru a thystysgrifau priodas yn ddiogel, a darpariaethau perthnasol eraill yn Neddf Priodasau 1949.

¹⁵ Cafwyd addewid gan y Farwnes Stowell (Tŷ'r Arglwyddi, 8 Gorffennaf 2013, Colofn 94) y byddai sefydliadau masnachol yn cael eu gwahardd rhag gweinyddu priodasau.

Ble byddai seremonïau priodasol cred yn cael eu cynnal

O gofio bod y gyfraith ar weinyddu priodasau'n seiliedig i bob pwrpas ar gynnal y seremoni mewn adeilad a gofrestrwyd i'r diben hwnnw (ac eithrio priodasau Crynwyr ac Iddewig) mae angen ystyried ble byddai priodasau cred yn cael eu cynnal, pe baent yn cael eu caniatáu.

Yn achos yr opsiynau a nodir isod, byddai'n rhaid ystyried y trefniadau i gadw llyfrau cofrestru a thystysgrifau priodas yn ddiogel. O fewn opsiynau 1 a 3 byddai modd awdurdodi unigolion o gyrrff cred i gofrestru a gweinyddu'r briodas *neu* i weinyddu'r briodas yn unig, gyda'r angen wedyn i gofrestrydd fod yn bresennol i gofrestru'r briodas ac i gadw'r llyfr cofrestru a'r tystysgrifau priodas.

Byddai angen llunio gweithdrefnau'n unol â'r rhai a geir yn y ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â seremonïau crefyddol a sifil ar gyfer unigolion sy'n ddifrifol wael ac nad oes disgwyl iddynt wella (priodasau gwely angau) a phriodasau pobl mewn caethiwed ac sy'n gaeth i'w cartrefi.

Opsiwn 1: cofrestru adeiladau

Un opsiwn fyddai efelychu'r dull a fabwysiadwyd ar gyfer sefydliadau crefyddol a sicrhau bod rhyw fath o gofrestru ar gyfer adeiladau sy'n eiddo i'r sefydliad cred neu ble mae'r sefydliad yn cwrdd i arddel ei gredoau fel grŵp. Byddai ymddiriedolwyr neu awdurdod llywodraethu'r adeilad cofrestredig hwnnw wedyn yn gallu awdurdodi pobl i ymgymryd â swyddogaethau'r cofrestrydd / gweinydd. I benodi unigolyn awdurdodedig, byddai ymddiriedolwyr neu gorff llywodraethu'r adeilad cofrestredig yn cofrestru enw a chyfeiriad yr unigolyn maent yn dymuno'i awdurdodi â'r Cofrestrydd Cyffredinol.

Yn yr opsiwn hwn byddai'n rhaid bod gan sefydliadau cred adeiladau i'w cofrestru neu fod yn rhan o strwythur llywodraethu adeiladau ble maent yn cwrdd i arddel eu credoau.

Opsiwn 2: dim cyfyngiadau

O dan yr opsiwn hwn byddai'r Cofrestrydd Cyffredinol yn cofrestru sefydliad cred i weinyddu priodasau ac yn dynodi swyddog o'r sefydliad hwnnw i awdurdodi pobl i weithredu fel swyddogion cofrestru / gweinyddion ar ran y sefydliad cred. Wrth benodi pobl awdurdodedig byddai ymddiriedolwyr neu gorff llywodraethu'r sefydliad yn cofrestru enw a chyfeiriad yr unigolion maent yn dymuno'u hawdurdodi â'r Cofrestrydd Cyffredinol. Gallai priodasau gael eu cynnal yn unrhyw le (heblaw adeiladau crefyddol) sy'n golygu rhywbeth i'r cwpl, gan gynnwys yr awyr agored.

Mae hyn yn efelychu sefyllfa'r Crynwyr ac Iddewon sy'n deillio o drefniadau sy'n dyddio'n ôl i 1753, pan wnaethpwyd darpariaeth i'w galluogi i gynnal priodasau cyfreithlon y tu allan i'r Eglwys Anglicanaidd. Mae'r darpariaethau perthnasol yn rhoi sylw i'w sefyllfa a'u rheolau penodol ac maent wedi eu trosi i'r gyfraith bresennol. Ni chaniateir i unrhyw briodasau eraill, crefyddol na sifil, gael eu cynnal heb gyfyngiadau. Yn ymarferol, mae mwyafrif priodasau Iddewig a Chrynwyr yn cael eu cynnal mewn adeiladau. Mae priodasau Crynwyr yn cael eu cynnal fel arfer mewn lleoliad ble cynhelir Cyfarfodydd Addoli rheolaidd. Mae llawer o seremonïau priodasol Iddewig yn cael eu cynnal mewn synagog, ond mae priodasau Iddewig yn cael eu cynnal hefyd mewn gwestai a chanolfannau eraill.

Byddai caniatáu sefydliadau cred i gynnal priodasau awyr agored heb ganiatáu i sefydliadau crefyddol neu gofrestryddion i wneud yr un peth yn debygol o roi mantais i sefydliadau cred dros sefydliadau sy'n cynnal priodasau sy'n fwy cyfyngedig. Hefyd, efallai y byddai llawer o gyplau, gan gynnwys y rhai hynny sy'n dewis cael seremoni sifil,

yn dymuno priodi yn yr awyr agored neu mewn adeilad heb ei gofrestru a gallant deimlo bod y newid yn annheg.

Opsiwn 3: canolfannau cymeradwy

Yn yr opsiwn hwn, byddai sefydliadau cred cofrestredig wedi'u cyfyngu i weinyddu priodasau mewn canolfannau a gymeradwywyd i'r diben hwn gan awdurdodau lleol (fel plastai a gwestai), er y byddent yn parhau i allu cynnal seremonïau yn ôl eu credoau a gynhelir gan weinydd sy'n arddel y credoau hynny.

Byddai'r Cofrestrydd Cyffredinol yn cofrestru sefydliad cred i weinyddu priodasau ac yn dynodi swyddog o'r sefydliad hwnnw i awdurdodi pobl i weithredu fel swyddogion cofrestru / gweinyddion ar ran y sefydliad cred. I benodi unigolion awdurdodedig byddai ymddiriedolwyr neu gorff llywodraethu'r sefydliad yn cofrestru enw a chyfeiriad yr unigolion maent yn dymuno'u hawdurdodi â'r Cofrestrydd Cyffredinol.

Byddai'r opsiwn hwn yn cyd-fynd â'r agwedd sifil at briodas o ran ble gellid cynnal priodasau. Byddai'n golygu na fyddai sefydliadau cred, a'r cyplau y gweinyddir eu priodasau ganddynt, yn cael eu trin yn fwy ffafriol na'r rhan fwyaf o sefydliadau crefyddol na mwyafrif y cyplau sy'n priodi mewn seremoni grefyddol neu sifil, gan na fyddai'n galluogi sefydliadau cred i gynnal priodasau yn yr awyr agored.

Cwestiwn 4: Mae'r Llywodraeth am glywed eich barn ar ble dylai sefydliadau cred gynnal seremonïau priodasol pe byddai'r gyfraith ar briodasau'n cael ei diwygio i ganiatáu priodasau o'r fath.

Cynnwys mesurau diogelu priodol

Pe penderfynid fod dadl gref dros newid y gyfraith i ganiatáu priodasau gan sefydliadau cred, byddai'n rhaid i'r rheoliadau cynnwys mesurau diogelu priodol i sicrhau bod enw da seremonïau priodasol yng Nghymru a Lloegr yn parhau, bod modd diogelu rhag unrhyw fuddiannau cwbl fasnachol, a lleihau unrhyw risg gynyddol sy'n gysylltiedig â phriodasau dan orfod a phriodasau ffug. Byddai'r rheoliadau hefyd yn gallu cynnwys troseddau troseddol tebyg i'r rhai a geir yn Neddf 1949.¹⁶

Mae priodasau a phartneriaethau sifil ffug (sy'n digwydd i ddibenion mewnfudo gan gyplau nad ydynt mewn perthynas wirioneddol) yn fygythiad sylweddol i reolaeth mewnfudo'r DU. Mae nifer yr adroddiadau o achosion ffug a amheuir a geir wedi parhau i gynyddu, gyda 2,135 o adroddiadau yn 2013. Mae Deddf Mewnfudo 2014 yn cynnwys cynllun cyfeirio ac ymchwilio newydd i fynd i'r afael â phriodasau ffug. Bydd y ddeddfwriaeth hon yn cynyddu'r cyfnod hysbysu ar gyfer priodasau a phartneriaethau sifil i 28 diwrnod yng Nghymru a Lloegr ac ni chaniateir i wladolion o'r tu allan i Ardal Economaidd Ewrop (EEA) briodi yn Eglwys Loegr a'r Eglwys yng Nghymru heb raghysbysiadau sifil yn gyntaf. Bydd hysbysiadau o briodas neu bartneriaeth sifil rhwng gwladolion o'r tu allan i'r EEA yn cael eu cyfeirio at y Swyddfa Gartref os oes siawns y byddai unigolyn yn cael mantais mewnfudo'n sgil y briodas neu'r bartneriaeth sifil. Os oes gan y Swyddfa Gartref sail resymol i amau bod priodas neu bartneriaeth sifil a gyfeiriwyd atynt yn un ffug, bydd yn

¹⁶ Mae Adrannau 75-77 Deddf Priodasau 1949 yn amlinellu troseddau sy'n gysylltiedig â gweinyddu priodasau, cofrestru priodasau, a throseddau gan unigolion awdurdodedig.

gall ymestyn cyfnod yr hysbysiad i 70 diwrnod er mwyn ymchwilio i ddilysrwydd perthynas y cwpl. Ni fydd cwpl yn cael priodi na ffurfio partneriaeth sifil os na fyddant yn cydymffurfio ag ymchwiliad. Mae'r Swyddfa Gartref ar hyn o bryd yn gobeithio cyflwyno'r cynllun hwn yn gynnar yn 2015.¹⁷

Fel yn achos cyplau sy'n dymuno priodi naill ai mewn seremoni sifil neu grefyddol (gan gynnwys seremoniau Eglwys Loegr a'r Eglwys yng Nghymru), byddai'n rhaid i gyplau sy'n bwriadu priodi mewn seremoni gred ddigrefydd gwblhau rhaghysbysïadau sifil cyn priodi. Byddai hyn yn golygu y byddai'r cynllun cyfeirio ac ymchwilio newydd yn weithredol yn achos priodasau o'r fath.

Yn 2013 rhoddodd Uned Priodasau dan Orfod y Llywodraeth gyngor neu gymorth yn ymwneud â phriodas dan orfod bosibl mewn 1302 o achosion. Fodd bynnag, gwyddom nad yw hyn yn dangos gwir raddfa'r cam-drin, a bod llawer yn rhagor o achosion nad ydynt yn dod i sylw'r awdurdodau. Mae'r Llywodraeth yn awr yn gweithio i gyflwyno trosedd droseddol newydd o briodi dan orfod a byddai torri Gorchmynion Amddiffyn rhag Priodas dan Orfod yn fater troseddol. Cafodd y Bil Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddau a Phlisma Gydsyniad Brenhinol ar 13 Mawrth 2014, a daw'r troseddau priodi dan orfod newydd i rym erbyn haf 2014.

Bydd y newidiadau hyn yn helpu i atal priodasau dan orfod ac yn helpu i fynd i'r afael â phriodasau ffug a phartneriaethau sifil ffug. Fodd bynnag, gwyddom nad yw deddfwriaeth yn ddigon. Er enghraifft, er yn llai o risg, bydd peth siawns o hyd na fydd yr awdurdodau'n llwyddo i ganfod priodasau nad ydynt yn rhai dilys yn ystod y cyfnod hysbysu. Mae hyn yn golygu y bydd yn rhaid i sefydliadau cred a awdurdodwyd i weinyddu priodasau a'u gweinyddion fod â gwybodaeth ac ymwybyddiaeth sy'n berthnasol i adnabod ac i fynd i'r afael â phriodasau ffug a phriodasau dan orfod.

Yn adran 2 y papur hwn rydym yn gofyn a ydych chi'n credu y dylai meini prawf penodol gael eu hychwanegu i gyfyngu ar y diffiniad yn adran 14 Deddf Priodasau (Cyplau o'r Un Rhyw) er mwyn sicrhau bod y mathau o sefydliadau a ganiateir i weinyddu priodasau cred digrefydd yn briodol. Pe bai'r Llywodraeth yn newid y ddeddf, byddai rheoliadau'n gallu cynnwys gofynion sylfaenol ar gyfer cymeradwyo sefydliad cred a chyflwyno profion a byddai'n rhaid i sefydliad cred eu pasio cyn y gellid awdurdodi ei swyddogion cofrestru/gweinyddion i weinyddu priodasau. Byddai hyn yn osgoi'r sefyllfa lle rhoddid disgrisiwn i'r Cofrestrydd Cyffredinol i benderfynu pa sefydliadau i'w cofrestru sydd ag enw da heb gymorth unrhyw feini prawf y cytunwyd arnynt.¹⁸

17

https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/256257/Sham_Marriage_and_Civil_Partnerships.pdf

¹⁸ Er mwyn sicrhau bod enw da seremonïau priodasol yn yr Alban yn parhau, ac yn dilyn pryderon cynyddol am briodasau ffug a phriodasau dan orfod, mae Deddf Priodasau a Phartneriaethau Sifil (yr Alban) 2014 yn cyflwyno profion y mae'n rhaid i gyrff crefyddol a chred eu pasio cyn y gellir awdurdodi gweinyddion y corff i weinyddu priodas neu gofrestru partneriaeth sifil. Ni fydd y profion yn weithredol gan Eglwys yr Alban yn achos priodasau cyplau o ryw gwahanol gan fod gweinidogion a diaconiaid Eglwys yr Alban wedi'u hawdurdodi'n awtomatig i weinyddu priodasau cyplau o ryw gwahanol yn rhinwedd adran 8 Deddf 1977. Gan y bydd y profion yn weithredol yn achos pob corff crefyddol a chred, mae Llywodraeth yr Alban yn y broses o adolygu'r rheoliadau cyfredol sy'n rhagnodi cyrff crefyddol y mae eu gweinyddion wedi'u hawdurdodi i weinyddu priodasau rhwng cyplau o ryw gwahanol. Wrth ymgyngori ar Ddeddf 2014 dywedodd Llywodraeth yr Alban mai'r math o brofion y gellid eu cynnwys mewn rheoliadau oedd na fyddai cyrff crefyddol neu gred yn cael eu caniatáu i weinyddu priodasau na chofrestru partneriaethau sifil er mwyn gwneud elw; byddai'n rhaid

Barn gychwynnol y Llywodraeth yw y byddai am atal sefydliadau masnachol rhag elwa ar briodasau sy'n seiliedig ar gred. Ni fyddem, fodd bynnag, yn dymuno rheoleiddio mewn ffordd a fyddai'n atal sefydliadau cred cofrestredig rhag codi tâl proffesiynol neu dâl am ddefnyddio adeilad (fel sy'n digwydd yn achos priodasau sifil a chrefyddol), na rhwystro cyplau rhag rhoi rhodd at goffrau'r sefydliad sy'n gweinyddu eu priodas (fel sy'n digwydd yn achos sefydliadau crefyddol).

Y math o brofion y gellid eu cynnwys mewn rheoliadau yw:

- Rhaid i'r sefydliad cred fod wedi bodoli ers deng mlynedd neu ragor, NEU, fel arall, rhaid i'r sefydliad cred fod wedi bodoli ers pum mlynedd neu ragor
- Rhaid bod gan y sefydliad cred statws elusennol, NEU, fel arall, fod yn elusen gofrestredig, ac yn ymwneud yn bennaf â hyrwyddo neu ymarfer cred ddigrefydd
- Rhaid bod gan y sefydliad cred reoliadau ysgrifenedig ar gyfer dethol, hyfforddi ac achredu pobl i gofrestru a gweinyddu priodasau sydd yn seiliedig ar eu system o greddau
- Rhaid i'r sefydliad cred allu dangos bod eu swyddogion cofrestru / gweinyddion wedi'u hyfforddi mewn meysydd fel mynd i'r afael â phriodasau dan orfod a phriodasau ffug, ac mewn cyfraith briodasol yn gyffredinol gan gynnwys osgoi priodasau afreolaidd
- Rhaid i'r sefydliad cred allu dangos bod eu gweinyddion yn trafod y briodas arfaethedig â'r cwpl
- Rhaid gofalu nad yw'r sefydliad cred yn bwriadu gweinyddu priodasau er mwyn enillion neu wneud elw

Byddai ei gwneud yn ofynnol bod sefydliadau wedi bodoli'n ddi-dor ers o leiaf pum mlynedd neu o bosibl hyd at ddeng mlynedd, yn sicrhau bod y sefydliad cred yn sefydledig a bwriedir i hynny roi peth sicrwydd o sefydlogrwydd a chyfrifoldeb.

Byddai ei gwneud yn ofynnol bod gan sefydliad statws elusennol yn rhoi ryw faint o fesurau diogelu ychwanegol gan y byddai sefydliadau o'r fath yn cael eu llywodraethu gan ymddiriedolwyr ac y byddai'n rhaid iddynt gyflawni'r gofyniad budd i'r cyhoedd y cyfeirir ato yn Neddf Elusennau 2011. Mae angen ystyried rhinweddau cynnig mesurau diogelwch o'r fath ochr yn ochr â'r posibilrwydd y byddai mynnu bod sefydliadau'n elusennau yn atal rhai sefydliadau cred dilys rhag gweinyddu priodasau.

Rhaid i elusennau anghorfforedig agor eu cyfrifon i archwiliadau allanol ond nid ydynt fel arall yn agored i fonitro allanol. Fodd bynnag, oni bai bod elusen wedi'i heithrio'n benodol, gall y Comisiwn Elusennau ddefnyddio ei bwerau rheoleiddio ar elusen heb ei chofrestru os oes pryder am y ffordd mae'n cael ei gweinyddu. Byddai mynnu bod cyrff cred yn elusennau cofrestredig (yn hytrach nag anghorfforedig) yn rhoi elfen o graffu gan y Comisiwn Elusennau. Dylid nodi fod elusennau cofrestredig sydd ag incwm gros

iddynt ddangos bod eu gweinyddion wedi'u hyfforddi mewn meysydd fel mynd i'r afael â phriodasau dan orfod a phriodasau ffug; byddai'n rhaid iddynt ddangos bod gan eu gweinyddion enw da am gynnal seremonïau perthnasol (er enghraifft, priodasau, angladdau, a bedydd neu seremonïau enwi babanod).

blynyddol o dan £25,000 yn profi trefn reoleiddio llai llym. Gallai mynnu bod cyrff cred yn elusennau cofrestredig hefyd o bosibl atal sefydliadau ag incwm gros blynyddol o lai na £5000 gan na fydd y Comisiwn Elusennau'n cofrestru'r sefydliadau hyn oni bai bod yr amgylchiadau'n rhai anarferol iawn.

Byddai mynnu bod sefydliadau'n hyfforddi ac yn achredu eu swyddogion cofrestru / gweinyddion yn helpu i reoli risgiau pwysig fel priodasau ffug a phriodasau dan orfod a sicrhau bod seremonïau'n urddasol ac o safon uchel. Fodd bynnag, byddai angen ystyried sut y gellid sicrhau bod safon yr hyfforddiant a'r achrediad yn ddigon da ac a yw'r safon honno'n cael ei chynnal dros amser, ac y gellid o bosibl roi'r pŵer i ddiddymu achrediad.

Mae hyfforddiant lleol cofrestryddion ar hyn o bryd yn cael ei benderfynu a'i ddarparu gan yr awdurdod lleol cyfatebol gan fod cofrestryddion yn cael eu cyflogi gan yr awdurdod lleol. Fodd bynnag, gan weithio mewn partneriaeth â llywodraeth leol, mae Strategaeth Hyfforddi Genedlaethol ar waith, sy'n eiddo ar y cyd i'r Cofrestrydd Cyffredinol a'r Panel Cofrestru Cenedlaethol (sy'n pennu blaenoriaethau ac sy'n sicrhau bod hyfforddiant yn cyrraedd safon dderbyniol). Mae Gweithgor Hyfforddi Cenedlaethol hefyd wedi'i sefydlu i gynorthwyo'r amcan cyffredinol o godi safonau yn y gwasanaeth cofrestru. Mae'r Cofrestrydd Cyffredinol, drwy Swyddfa'r Cofrestrydd Cyffredinol (GRO), yn darparu'r cymorth i ddarparu hyfforddiant cofrestru i sicrhau bod gan y gwasanaeth cofrestru lleol y sgiliau technegol a'r cymwyseddau priodol. Fel rhan o'r model hwn mae gan y rhan fwyaf o awdurdodau lleol swyddogion hyfforddi sy'n cyfrannu at grwpiau hyfforddi rhanbarthol, ac ynghyd â'r GRO maent yn helpu i ddatblygu pecynnau hyfforddi ar-lein ac yn yr ystafell ddosbarth, ac i ddiweddar llawlyfrau a chylchlythyrau. Mae Adrannau 24 a 24A Deddf Mewnfudo a Lloches 1999 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau cofrestru a chofrestryddion i hysbysu'r Swyddfa Gartref am briodasau a phartneriaethau sifil ffug amheus.

Nid oes hyfforddiant cenedlaethol, ffurfiol yn cael ei ddarparu gan y GRO na'r gwasanaeth cofrestru lleol i sefydliadau crefyddol ar weinyddu a chofrestru priodasau. Fodd bynnag, mae rhai swyddfeydd cofrestru yn darparu hyfforddiant a chymorth i'w cynorthwyo i gyflawni eu dyletswyddau ac mae'r GRO yn cynhyrchu llyfrynnau canllaw a chylchlythyrau rheolaidd i Glerigwyr, Unigolion Awdurdodedig ac Ysgrifenyddion Synagogau. Rhoddir arweiniad hefyd i Unigolion Awdurdodedig ar adnabod priodasau ffug ar adeg y seremoni a chynghorir fod unrhyw amheuan yn cael eu rhannu â'r cofrestrydd arolygol. Mae Unigolion Awdurdodedig a Chlerigwyr yn cael eu cynghori i gysylltu â'r Uned Priodasau dan Orfod os ydynt yn amheus. Mae nifer o sefydliadau crefyddol yn darparu hyfforddiant i'w clerigwyr a'u gweinidogion eu hunain ar weinyddu a chofrestru priodasau er nad yw pawb yn gwneud hyn.

Felly, os byddai angen hyfforddiant, ac achrediad o bosibl, ar sefydliadau cred i gofrestru a gweinyddu priodasau, a / neu i adnabod priodasau ffug a dan orfod, byddem yn disgwyl mwy gan gyrff cred digrefydd nac a ddisgwylir gan sefydliadau crefyddol ar hyn o bryd, ac o bosibl rhai cofrestryddion gan nad yw hyfforddiant i gofrestryddion wedi'i safoni ar hyn o bryd ar draws Cymru a Lloegr (er bod arferion gorau wedi'u hystyried, yn ogystal â deunydd hyfforddi, fel rhan o'r strategaeth hyfforddi genedlaethol). Pe baem yn newid y gyfraith byddai angen i ni sicrhau bod gennym system a fyddai'n rhoi sylw i hyfforddiant ar gyfer pob math o seremonïau priodasol.

Yn ychwanegol at y math o brofion a ddisgrifiwyd yma, byddai modd ymestyn y mesurau diogelu y gall y Cofrestrydd Cyffredinol eu cymhwysu i sefydliadau crefyddol i gynnwys sefydliadau cred. Gallai rheoliadau bennu, fel sy'n digwydd yn achos sefydliadau crefyddol, bod yn rhaid cael cofrestrydd yn bresennol ym mhob priodas yn ystod blwyddyn

gyntaf cofrestriad sefydliadau cred sydd newydd gofrestru; ac y gellid ymestyn y gofyniad hwn os oes pryderon ynghylch eu gweithdrefnau. Hefyd, byddai'n rhaid i briodasau cred, fel priodasau crefyddol a sifil, gael eu cynnal gyda 'drysau agored' (mewn geiriau eraill rhaid iddynt fod yn agored i bawb).

Seremonïau

Dywed Adran 14 Deddf 2013 y byddai angen i briodasau gan sefydliadau cred gael eu cynnal yn ôl defodau'r sefydliad. Dywed y Ddeddf hefyd na cheir defnyddio gwasanaeth crefyddol mewn priodas sefydliad cred. Pe byddai seremonïau priodasol cred yn cael eu caniatáu, byddai'n rhaid cael presenoldeb tystion drwy ddeddfwriaeth (fel yn adran 44(2) a rhannau eraill o Ddeddf Priodasau 1949). Byddai'n rhaid penderfynu a ddylai seremonïau cred gynnwys y datganiadau statudol a geiriau'r contract sy'n ofynnol mewn priodasau sifil a chrefyddol yn ôl adran 44(3) a (3A) Deddf 1949 (ac eithrio priodasau Crynwyr ac Iddewon, nad ydynt yn gorfod cydymffurfio â'r gofyniad hwn).

Byddai gofynion penodedig ar gyfer cymeradwyo sefydliadau cred ac awdurdodi eu gweinyddion, fel y rhai a amlinellir yn y profion uchod, yn helpu i sicrhau y byddai seremonïau'n urddasol a phriodol.

Mae'n werth ystyried a ddylai seremonïau priodasol cred gael eu cyfyngu i aelodau'r sefydliad cred, gydag eithriad posibl yn achos aelod sy'n priodi rhywun â chredoau sy'n anghydawns ag aelodaeth ond sydd er hynny wedi'i awdurdodi gan y sefydliad cred yn ôl seremoni a gynhelir ganddo. Gallai amod o'r fath helpu i sicrhau bod y seremoni wedi'i gwreiddio yn y gred berthnasol ac yn helpu i warchod rhag unrhyw duedd i'w gwneud yn fasnachol. Gellir gweinyddu priodasau Iddewig rhwng dau unigolyn sy'n arddel y ffydd Iddewig yn unig. Yn achos priodasau Crynwyr dim ond unigolion sy'n aelodau o Gymdeithas Grefyddol y Cyfeillion neu sydd wedi'u hawdurdodi gan y Gymdeithas all briodi yn seremonïau'r Crynwyr. Yn achos crefyddau eraill nid yw wedi'i ddatgan pwy all gael eu priodi ganddynt, gan adael y penderfyniad i'r sefydliad ei hun.

Cwestiwn 5: Mae'r Llywodraeth am glywed eich barn ar yr egwyddor o sefydlu profion y byddai'n rhaid i sefydliad cred eu pasio cyn y gellid eu hawdurdodi i weinyddu priodasau, a beth ddylai'r profion hynny fod.

Cwestiwn 6: Pe bai priodasau cred yn cael eu caniatáu, a ddylai'r mesurau diogelu sydd ar waith yn awr ar gyfer sefydliadu crefyddol newydd sy'n cynnal priodasau gael eu hymestyn i gynnwys sefydliadau cred?

Cwestiwn 7: A ddylai priodasau gan sefydliadau cred, pe baent yn cael eu caniatáu, gael eu cyfyngu i aelodau'r sefydliadau cred?

4. Ystyriaethau cydraddoldeb

O dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, rhaid i'r Llywodraeth ystyried effaith unrhyw newidiadau arfaethedig ar gydraddoldeb a rhoi sylw dyledus i'r angen i:

- ddileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth ac ymddygiad arall a waherddir gan y Ddeddf;

- hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig a rhai nad ydynt; a
- meithrin cysylltiadau da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig a rhai nad ydynt.

I ddibenion dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus y nodweddion gwarchoddedig perthnasol yw: oedran; anabledd; ailbennu rhywedd; beichiogrwydd a mamolaeth; hil; crefydd neu gred; rhyw a chyfeiriadedd rhywiol.

Pe bai priodasau cred yn cael eu caniatáu yng Nghymru a Lloegr, byddai'n rhaid i'r Llywodraeth benderfynu a fyddai'n ofynnol i sefydliadau cred gynnal priodasau o'r un rhyw a rhywiau gwahanol fel cofrestryddion sifil; ynteu a ddylent (fel yn yr Alban) gael eu trin yn yr un ffordd â sefydliadau crefyddol, gyda sefydliadau cred yn gorfod 'optio i mewn' i weinyddu priodasau cyplau o'r un rhyw. Pe bai'n ofynnol i sefydliadau cred gynnal priodasau cyplau o'r un rhyw, gallai unigolion gael ei gwarchod o hyd drwy reoliadau, fel na fyddai unrhyw weinydd unigol yn cael ei orfodi i gynnal priodasau cyplau o'r un rhyw, a byddai sefydliadau'n gallu penodi unigolion o'u dewis i'r diben hwn.

Rydym wedi cynnal asesiad cydraddoldeb cychwynnol o effeithiau tebygol ein cynigion, sydd i'w weld yn **Atodiad A**. Mae'r asesiad yn dangos effeithiau posibl ar gyplau â nodweddion gwarchoddedig sy'n priodi, a daw i'r casgliad nad yw'r cynigion a'r opsiynau hyn yn gwahaniaethu'n uniongyrchol ac nad ydynt ychwaith yn debygol o gyfrif fel gwahaniaethu anuniongyrchol.

Rydym yn croesawu unrhyw sylwadau pellach ar effeithiau tebygol y cynigion ar gydraddoldeb yn yr ymgynghoriad hwn yn ogystal ag unrhyw wybodaeth gysylltiedig a all helpu ein dealltwriaeth a'n hasesiad o'r effeithiau.

Cwestiwn 8: Beth ydych chi'n feddwl yw effeithiau'r opsiynau arfaethedig ar gydraddoldeb i gyplau â nodweddion gwarchoddedig sy'n priodi?

A allwch chi gynnig unrhyw dystiolaeth neu ffynonellau gwybodaeth a fydd yn ein helpu i ddeall yn well ac yn goleuo ein hasesiad o effaith y cynigion?

Diolch yn fawr am gymryd rhan yn yr ymarferiad ymgynghori hwn.

Atodiad A: Priodasau gan sefydliadau cred digrefydd - Datganiad cydraddoldeb

Amcan polisi

Ni all sefydliadau cred digrefydd (fel dyneiddwyr) weinyddu priodasau sydd â statws cyfreithiol yng Nghymru a Lloegr. Gall dyneiddwyr, ac unrhyw sefydliad cred digrefydd arall, gynnal seremonïau priodasol nad ydynt â statws cyfreithiol, ond os yw cyplau am gael priodas cyfreithlon ddilys bydd yn rhaid iddynt gael seremoni sifil sy'n cael ei chydabod gan y gyfraith (e.e. mewn swyddfa gofrestru neu ganolfan a gymeradwywyd gan yr awdurdod lleol).

Mae'r rhai sy'n cefnogi newid yn y gyfraith yn dadlau bod dyneiddwyr o dan anfantais am nad ydynt yn cael eu trin yn yr un ffordd â rhai sy'n arddel credoau crefyddol ac sy'n gallu priodi mewn seremoni sydd â statws cyfreithlon sy'n adlewyrchu eu credoau ac sy'n cael ei chynnal gan weinydd sy'n rhannu eu credoau (er bod seremoni sifil yn gallu ymgorffori elfennau digrefydd personol rhaid iddi gael ei gweinyddu ym mhresenoldeb cofrestrydd arolygol a chofrestrydd).

Dywed Adran 14 Deddf Priodasau (Cyplau o'r Un Rhyw) 2013 bod yn rhaid i'r Llywodraeth gynnal adolygiad i ystyried a ddylid gwneud gorchymyn i ganiatáu priodasau gan sefydliadau cred digrefydd. Rhaid i'r adolygiad gynnwys ymgynghoriad cyhoeddus. Mae'n ofynnol bod y Llywodraeth yn cyhoeddi adroddiad ar ganlyniad yr adolygiad erbyn 1 Ionawr 2015.

Er bod Cymdeithas Dyneiddwyr Prydain wedi ymgyrchu dros newid yn y gyfraith o safbwynt seremonïau priodasol dyneiddiol, mae'n bosibl bod sefydliadau cred digrefydd eraill a fyddai'n dymuno cynnal seremonïau priodasol. Nod yr ymgynghoriad yw cael darlun llawnach o effaith unrhyw newid posibl yn y gyfraith.

Diben yr ymgynghoriad yw dylanwadu ar benderfyniadau ar y canlynol: (i) a oes dadl gref dros newid i ganiatáu sefydliadau cred digrefydd i weinyddu priodasau; (ii) penderfynu pa sefydliadau fyddai'n cael eu cynnwys yn y diffiniad o sefydliadau cred a geir yn Neddf 2013, ac a ddylid cyfyngu ar y diffiniad hwnnw i roi unrhyw fesurau diogelu; a (iii) i glywed barn ar ba drefniadau ymarferol ddylid eu rhoi ar waith pe bai seremonïau priodasol o'r fath yn cael eu caniatáu.

Pe bai canlyniad yr arolwg yn dod i'r casgliad y dylai'r gyfraith gael ei newid, i ganiatáu seremonïau priodasol cred digrefydd sydd â statws cyfreithiol ochr yn ochr â seremonïau crefyddol a sifil mewn ffordd sydd yn:

- gwarchod statws ac urddas penodol priodas mewn cymdeithas;
- rheoli'n gadarn y risgiau a all godi yn sgil newid y gyfraith (er enghraifft, i atal priodasau ffug);
- gwarchod mesurau diogelu crefyddol sy'n hanfodol i'r ddeddfwriaeth a ddaeth i rym yn ddiweddar i alluogi cyplau o'r un rhyw i briodi;
- atal sefydliadau nad ydynt yn sefydliadau cred gwirioneddol rhag cofrestru fel cyrff cred i weinyddu priodasau.

Dyletswyddau cydraddoldeb

Mae Adran 149 Deddf Cydraddoldeb 2010 (“yr EA”) yn datgan bod yn rhaid i Weinidogion, wrth weinyddu eu swyddogaethau, roi ‘sylw dyledus’ i’r angen i:

- Dileu gwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac unrhyw ymddygiad arall a waherddir gan yr EA;
- Hybu cyfle cyfartal rhwng grwpiau gwahanol (rhai sy’n rhannu nodwedd warchoddedig berthnasol a rhai nad ydynt);
- Meithrin cysylltiadau da rhwng grwpiau gwahanol (rhai sy’n rhannu nodwedd warchoddedig berthnasol a rhai nad ydynt).

Mae’r ddyletswydd ‘sylw dyledus’ yn cyfeirio at y “nodweddion gwarchoddedig” perthnasol o dan yr EA – sef hil, rhyw, anabled, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd a chred, oedran, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth.

Mae dyletswydd gyfreithiol ar y MoJ i ystyried sut y mae’r cynigion polisi arfaethedig yn debygol o effeithio ar y bobl hynny â nodweddion gwarchoddedig a chymryd camau cymesur i liniaru neu gyfiawnhau’r rhai mwyaf negyddol a hyrwyddo’r rhai positif.

Crynodeb

Ystyriwyd effaith y cynigion yn erbyn yr ymrwymadau statudol o dan yr EA. Amlinellir y rhain isod.

Gwahaniaethu Uniongyrchol

Mae ein hasesiad cychwynnol yn dangos na fyddai derbyn neu wrthod y cynigion i alluogi sefydliadau cred digrefydd i weinyddu priodasau yng Nghymru a Lloegr yn gwahaniaethu’n uniongyrchol o fewn ystyr yr EA, gan y byddai unrhyw newidiadau yn weithredol yn yr un modd yn achos pob cwpl a hoffai gael eu priodi yn y math hwn o seremoni boed ganddynt nodwedd warchoddedig ai peidio. Ni fyddai neb yn cael eu trin yn llai ffafriol oherwydd nodwedd warchoddedig, fel sy’n digwydd yn achos seremonïau crefyddol a seremonïau sifil yn awr.

Gwahaniaethu Anuniongyrchol

Ein hasesiad cychwynnol, sy’n seiliedig ar yr wybodaeth brin sydd ar gael, yw na fyddai derbyn neu wrthod caniatáu seremonïau priodasol cred yn debygol o wahaniaethu’n anuniongyrchol o dan yr EA gan na fyddai unrhyw newidiadau i’r gyfraith briodasol yn debygol o olygu y bydd unrhyw rai sy’n rhannu nodwedd warchoddedig yn debygol o fod o dan anfantais, o’i gymharu â’r rhai hynny nad ydynt yn rhannu’r nodwedd warchoddedig honno. Yn ddibynnol ar ba ddull a fabwysiedir, pe bai unrhyw wahaniaeth yn y driniaeth rhwng rhai sy’n rhannu nodwedd warchoddedig a rhai nad ydynt, asesiad cychwynnol y llywodraeth yw bod yr opsiynau arfaethedig yn ddull cymesur o gyflawni nodau dilys yr amcanion polisi a amlinellwyd uchod.

Wrth ystyried a oes dadl dros newid y gyfraith, bydd y llywodraeth yn ystyried yr angen i roi sylw dyledus i’r angen i ddileu gwahaniaethu ac effaith y cynigion ar y rhai hynny sydd â nodweddion gwarchoddedig a rhai heb nodweddion gwarchoddedig. Bydd yr ymgynghoriad yn gofyn am ragor o wybodaeth am effeithiau’r cynigion ar gydraddoldeb.

Gwahaniaethu sy'n deillio o anabledd a dyletswydd i wneud addasiadau rhesymol

Ein hasesiad cychwynnol sy'n seiliedig ar yr wybodaeth brin sydd ar gael yw na fydd y cynigion yn arwain at wahaniaethu sy'n deillio o anabledd.

Aflonyddu ac erledigaeth

Nid ydym yn credu y bydd y cynigion yn arwain at aflonyddu nac erledigaeth o fewn ystyr a geir yn Neddf Cydraddoldeb 2010.

Hyrwyddo cyfle cyfartal

Mae'r Weinyddiaeth Cyfiawnder yn ymwybodol o'r ddyletswydd i hyrwyddo cyfle cyfartal a bydd yn ystyried y cyfle a roddir i rai â chredoau crefyddol a rhai â chredoau digrefydd i'r graddau y mae'r cynigion yn ystyried cyflwyno seremonïau cred digrefydd sydd â statws cyfreithiol ochr yn ochr â seremonïau crefyddol a sifil. Mae dyneiddwyr yn credu eu bod o dan anfantais am nad ydynt yn cael eu trin yn yr un ffordd â rhai sy'n arddel credoau crefyddol am nad ydynt ar hyn o bryd yn gallu gweinyddu priodasau. Er nad ydynt yn cael eu trin yn yr un ffordd, mae angen ystyried a oes anfantais sylweddol, o gofio bod cyplau â phob math o greddoau digrefydd yn cael priodi mewn seremonïau sifil a all ymgorffori elfennau digrefydd gan gynnwys llwon personol a gellir eu cynnal mewn unrhyw ganolfan sydd wedi'i chymeradwyo i'r diben hwnnw.

Nid oes gan y BHA unrhyw adeiladau ar hyn o bryd ble gallent gynnal seremonïau priodasol ac felly nid yw'r seremonïau nad ydynt yn rhwym mewn cyfraith a gynhelir ganddynt yn awr wedi'u cyfyngu o ran lleoliad a gellir eu cynnal yn yr awyr agored hefyd. Nid yw'r gallu hwn i gynnal seremonïau priodasol yn yr awyr agored ar gael i'r rhan fwyaf o sefydliadau crefyddol nac i gofrestryddion gan fod y gyfraith ar hyn o bryd yn datgan bod yn rhaid i adeiladau gael eu cofrestru i ddiben gweinyddu priodasau. Os yw unrhyw newid yn y gyfraith yn mynd i hyrwyddo cydraddoldeb bydd yn rhaid ystyried unrhyw wahaniaethau a fydd yn deillio o wahaniaethau yn y driniaeth a roddir i rai sy'n arddel credoau digrefydd a rhai â chredoau crefyddol o ran ble gellir cynnal priodasau.

Pe bai seremonïau priodasol cred yn cael eu caniatáu byddai'n rhaid i'r Llywodraeth benderfynu a ddylai priodasau o'r fath gael eu trin fel seremonïau sifil o safbwynt cynnal priodasau cyplau o'r un rhyw (fel sy'n digwydd yn yr Alban) ynteu fel seremonïau crefyddol, gyda sefydliadau'n gorfod 'optio i mewn' i weinyddu priodasau cyplau o'r un rhyw.

Meithrin cysylltiadau da

Ein hasesiad cychwynnol sy'n seiliedig ar yr wybodaeth brin sydd ar gael, yw nad yw'n debygol y bydd y cynigion yn effeithio ar yr agwedd hon ar y ddyletswydd.

Y Fethodoleg ar gyfer Dadansoddi

Mae Cymdeithas Dyneiddwyr Prydain (BHA) yn cynnal seremonïau priodasol yng Nghymru a Lloegr ar hyn o bryd ond nid yw'r rhain yn cael eu cydnabod fel priodasau sydd wedi cael eu gweinyddu'n gyfreithlon. Mae'r BHA yn amcangyfrif bod oddeutu 600-800 o seremonïau o'r fath yn cael eu cynnal bob blwyddyn. Fodd bynnag, oherwydd cyfyngiadau yn y dystiolaeth sydd ar gael, nid ydym yn gwybod beth yw'r potensial i'r cynigion gael unrhyw effaith wahaniaethol o safbwynt nodweddion gwarchoddedig o dan y Ddeddf Cydraddoldeb.

Mae'r Llywodraeth yn cydnabod nad yw'n casglu gwybodaeth gynhwysfawr gyffredinol am gyplau sy'n priodi, na gwybodaeth benodol am nodweddion gwarchoddedig. Mae hyn yn cyfyngu ar ddealltwriaeth y llywodraeth o effeithiau posibl y cynigion i ddiwygio ar gydraddoldeb. Gwnaethpwyd ymdrech i gasglu rhagor o wybodaeth ar ddemograffeg defnyddwyr yn yr achosion hyn, ond mae'r data'n gyfyngedig.

Byddwn yn rhoi ystyriaeth bellach i'n hasesiad cychwynol yng ngoleuni'r ymatebion a geir i'r ymgynghoriad.

Cwestiynau Cydraddoldeb

Rydym wedi gofyn am farn ar effeithiau posibl ar gydraddoldeb mewn cwestiwn yn y papur ymgynghori.

Atodiad B: Priodasau gan sefydliadau cred digrefydd - Asesiad cryno o gostau a manteision

1. Mae'r ymgynghoriad hwn yn ystyried yr Opsiynau canlynol ynghylch ble gellid cynnal priodasau cred digrefydd sydd â statws cyfreithiol, pe bai penderfyniad yn cael ei wneud i ganiatáu priodasau o'r fath. Ar hyn o bryd nid oes dim cyfyngiadau ar ble gellir cynnal seremonïau cred digrefydd nad ydynt yn rhwym yn y gyfraith yng Nghymru a Lloegr.

Opsiwn 0: Gwneud dim.

Opsiwn 1: Caniatáu sefydliadau cred digrefydd i weinyddu priodasau yn eu hadeiladau eu hunain neu mewn adeiladau ble mae'r sefydliad yn cwrdd i arddel ei greddoau ac sydd wedi'u cofrestru i'r diben hwn.

Opsiwn 2: Caniatáu sefydliadau cred digrefydd i weinyddu priodasau yn unrhyw le (heblaw adeiladau crefyddol) sy'n golygu rhywbeth i'r cwpl, gan gynnwys yr awyr agored.

Opsiwn 3: Caniatáu sefydliadau cred digrefydd i weinyddu priodasau mewn 'canolfannau cymeradwy' (heblaw adeiladau crefyddol), h.y. canolfannau sydd wedi'u cymeradwyo gan awdurdodau lleol i gynnal seremonïau sifil.

Rhanddeiliaid a effeithir

2. *Sefydliadau cred digrefydd* - byddent yn cael eu heffeithio gan y byddai'r polisïau arfaethedig yn caniatáu iddynt gofrestru i weinyddu priodasau'n gyfreithlon.
3. *Busnesau a chyrff neu sefydliadau eraill sy'n darparu canolfannau* - byddent yn cael eu heffeithio gan y byddai'r diwygiadau arfaethedig yn effeithio ar ble gellir cynnal priodasau cred digrefydd.
4. *Awdurdodau Lleol gan gynnwys Swyddfeydd Cofrestru* - byddent yn cael eu heffeithio gan y byddai'r cynigion yn gallu effeithio ar nifer y bobl a fydd yn cael seremoni briodasol sifil a ble gellir cynnal priodasau cred digrefydd, a gall hynny olygu y byddai'n rhaid i gofrestryddion oruchwylio priodasau cred digrefydd yn ystod cyfnod cychwynnol o 12 mis ar ôl cofrestru'r sefydliad cred i gynnal priodasau o'r fath.
5. *Cyplau sydd am gael priodasau sy'n rhwym mewn cyfraith* – byddent yn cael eu heffeithio gan y byddai ganddynt y dewis ychwanegol o gael priodas cred digrefydd.

Costau

Costau i sefydliadau cred digrefydd

6. Efallai y byddai'n rhaid i sefydliadau cred digrefydd orfod talu ffi untro i gofrestru i weinyddu priodasau. Disgwylir y bydd nifer y sefydliadau cred digrefydd a all gyflawni'r meini prawf a geir yn adran 14 Deddf Priodasau (Cyplau o'r Un Rhyw) 2013 yn fychan iawn.

7. Efallai y bydd yn rhaid i sefydliadau cred digrefydd dalu i awdurdod lleol am eu monitro pan fyddant yn gweinyddu priodasau yn ystod y 12 mis cyntaf.¹⁹
8. Efallai y bydd yn rhaid i sefydliadau cred digrefydd dalu costau untro a pharhaus am hyfforddi ac achredu gweinyddion.
9. Efallai y bydd yn rhaid i sefydliadau cred digrefydd dalu costau untro a pharhaus ychwanegol i gael neu i hurio canolfannau i gynnal seremonïau.
10. Ni chaniateir i sefydliadau cred digrefydd fod yn gyrff sy'n cynhyrchu elw. Fel yr eglurir yn yr adran ar fanteision rydym yn tybio y byddent yn codi tâl am weinyddu priodasau er mwyn adennill eu costau am wneud hynny. Rydym felly'n disgwyl y bydd yr effaith ariannol net ar sefydliadau cred digrefydd yn sero.

Costau i ddarparwyr canolfannau

11. Yn ddibynnol ar ba opsiwn a ddewisir, gellir gweld cyfnewid rhwng gwahanol fathau o ganolfannau (canolfannau 'cymeradwy', canolfannau anghofrestredig, canolfannau sy'n eiddo neu sy'n cael eu hurio gan sefydliadau cred), gan arwain at gynnydd mewn gweithgarwch ac mewn costau i rai darparwyr canolfannau, a lleihad mewn gweithgarwch ac incwm i eraill.
12. O ganlyniad i seremonïau'n symud rhwng gwahanol ddarparwyr canolfannau, gyda rhai'n cynnal mwy o seremonïau ac eraill yn cynnal llai, efallai y bydd costau cymhwyso busnes o fewn y sector yn gyffredinol. O dan Opsiwn 2, efallai y bydd peth symud o gynnal seremonïau mewn canolfannau o gwbl a mwy o seremonïau'n cael eu cynnal yn yr awyr agored. Gall hyn arwain at lai o alw am ganolfannau.
13. Ni thybir y bydd elw busnesau sy'n darparu canolfannau'n newid o ganlyniad i'r diwygiadau. Pe bai cyfnewid rhwng gwahanol fathau o ganolfannau o ganlyniad i'r diwygiadau, gan gynnwys symud i ffwrdd oddi wrth ddefnyddio canolfannau o gwbl a chynnal seremonïau yn yr awyr agored, gall hyn newid cyfanswm y gost o ddarparu'r holl ganolfannau (er enghraifft, os bydd symud cyffredinol o ddefnyddio canolfannau costus i ddefnyddio canolfannau rhatach, a symud i ffwrdd oddi wrth ddefnyddio canolfannau a chynnal seremonïau yn yr awyr agored). Tybir y bydd unrhyw newid yng nghyfanswm costau darparu'n cael ei gynnwys mewn newid yng nghyfanswm y ffioedd a godir i ddefnyddio'r holl ganolfannau.
14. Yn yr un modd yn achos darparwyr canolfannau eraill nad ydynt yn fusnesau ac a allai fod yn fudiadau trydydd sector, cyrff sector cyhoeddus neu gyrff dielw eraill, tybir y bydd unrhyw newid yng nghyfanswm eu costau darparu'n cael ei gynnwys yn eu hincwm o ffioedd, gydag effaith ariannol net niwtral.
15. Os yw cyfanswm y costau o ddarparu'r holl ganolfannau'n is yn dilyn y diwygiadau, mae hyn yn awgrymu y byddai adnoddau'n cael eu rhyddhau ar gyfer gweithgareddau eraill cynhyrchiol neu sy'n gwneud elw.

¹⁹ Yn ôl Deddf Priodasau 1949 rhaid i bobl sefydliad crefyddol newydd ei gofrestru gael cofrestru ym goruchwyllo ac yn cofrestru pob priodas ym mlwyddyn gyntaf eu cofrestriad. Gellir ymestyn y gofyniad hwn y tu hwnt i flwyddyn os oes pryderon ynghylch eu gweithdrefnau.

Costau i Awdurdodau Lleol

16. Ni fyddai'n rhaid i gyplau a fyddai'n dewis priodas cred digrefydd yn y dyfodol ac a fyddai gynt wedi dewis priodi mewn seremoni gred digrefydd nad yw'n rhwym mewn cyfraith bellach yn gorfod cael seremoni sifil ychwanegol er mwyn cael priodas â statws cyfreithlon. Gallai hyn arwain at ostyngiad yn nifer y seremonïau sifil a gynhelid, gyda llai o incwm i wasanaethau cofrestru awdurdodau lleol (byddai hyn yn berthnasol ar ôl y 12 mis cyntaf pe bai angen i gofrestryddion awdurdodau lleol fonitro gweinyddu seremonïau cred digrefydd yn ystod y cyfnod cychwynol hwn, ac i godi'r un ffi ag a godir am seremoni sifil i wneud hyn).
17. Hefyd, gallai rhai cyplau sy'n awr yn dewis seremoni sifil ddewis priodas gred digrefydd yn y dyfodol. Os felly, byddai gostyngiad yn nifer y seremonïau sifil a gynhelir, gyda gostyngiad yn y ffioedd y byddai gwasanaethau cofrestru awdurdodau lleol yn eu cael.
18. Os bydd cofrestryddion awdurdodau lleol yn monitro gweinyddu seremonïau cred digrefydd yn ystod y 12 mis byddent yn wynebu costau am wneud hynny. Fel yr eglurwyd yn yr adran ar fanteision, byddai disgwyl iddynt godi ffioedd i dalu am y costau hyn felly dylai eu costau net fod yn sero.
19. Bydd yn rhaid penderfynu ar weithdrefnau i gyhoeddi a chadw llyfrau cofrestru a thystysgrifau priodas yn ddiogel a gall olygu y bydd yn rhaid cynnwys cofrestryddion awdurdodau lleol, gydag awdurdodau'n wynebu costau yn sgil hynny. Fel yr eglurwyd yn yr adran ar fanteision, byddai disgwyl iddynt godi ffioedd i dalu am y costau hyn felly dylai eu costau net fod yn sero.
20. Lle mae awdurdodau lleol yn gweithredu fel darparwyr canolfannau byddant yn cael eu heffeithio yn y ffordd yr eglurwyd uchod yn yr adran ar ddarparwyr canolfannau.

Costau i gyplau sydd am gael priodasau rhwym mewn cyfraith

21. Pan fo cyplau'n awr yn cael seremoni cred ddigrefydd sydd heb statws cyfreithiol, a phan fyddant yn parhau i wneud hynny yn y dyfodol (os na newidir y gyfraith i ganiatáu seremonïau cred sydd â statws cyfreithiol) ni fyddai costau ychwanegol yn codi. Yn yr un modd ni ddylai cyplau sydd ar hyn o bryd yn cael seremoni cred ddigrefydd ynghyd â seremoni sifil gyfreithiol orfod talu costau ychwanegol, ac a fydd yn y dyfodol yn cael priodas cred digrefydd rhwym mewn cyfraith.
22. Efallai y bydd ffioedd uwch i gyplau sydd ar hyn o bryd yn cael seremoni gred ddigrefydd nad yw'n gyfreithlon, ac a fydd yn y dyfodol yn cael priodas cred digrefydd rhwym mewn cyfraith. Bydd hyn oherwydd y disgwylir i unrhyw gynnydd mewn costau i sefydliad cred digrefydd i weinyddu priodasau'n cael eu trosglwyddo i gyplau drwy gyfrwng y ffioedd a godir arnynt. Gall y ffioedd hyn fod yn uwch yn y 12 mis cyntaf, pan fydd priodasau cred digrefydd yn cael eu monitro gan gofrestryddion awdurdodau lleol.
23. Gall cyplau wynebu costau eraill o ganlyniad i briodasau sy'n cael eu cynnal mewn canolfannau gwahanol i'r hyn a arferid gynt. Byddai hyn yn dibynnu ar ba Opsiwn a gaiff ei fabwysiadu ac ar ymateb ymddygiadol cyplau. Yn benodol, rydym yn tybio y bydd unrhyw newid yn y costau o ddarparu canolfannau'n cael eu trosglwyddo i gyplau drwy'r ffioedd a godir arnynt am ddefnyddio canolfannau.

Manteision

Manteision i sefydliadau cred digrefydd

24. Disgwylir y bydd sefydliadau cred digrefydd yn codi tâl ar gyplau i dalu eu costau. Dylai cyfanswm incwm eu ffioedd fod yn uwch nag yw ar hyn o bryd, gan y bydd cyfanswm eu costau'n uwch.
25. Byddai gan sefydliadau cred digrefydd ddewis a ydynt am gofrestru i weinyddu priodasau, a disgwylir na fyddant yn gwneud hynny pe byddai hynny'n golygu colledion iddynt.
26. Os yw cyrff cred digrefydd yn sefydliadau dielw, rydym yn disgwyl y byddai eu hincwm ychwanegol yn cyfateb i'r costau ychwanegol a wynebir ganddynt, gyda mantais net o sero.

Manteision i ddarparwyr canolfannau

27. Fel yr eglurwyd yn yr adran ar gostau, disgwylir y byddai darparwyr canolfannau'n codi ffioedd i dalu eu costau. Os yw darparwyr canolfannau'n fusnesau tybir na fydd unrhyw newid yn eu gallu i wneud elw o ganlyniad i newid ym mhatrwm y galw. Hefyd rhagwelir y byddai darparwyr canolfannau nad ydynt yn fusnesau'n cael eu gadael mewn sefyllfa ariannol niwtral gan y tybir y bydd incwm o'u ffioedd yn parhau i dalu eu costau.
28. Yn gryno, pan fydd costau darparu canolfannau'n cynyddu, er enghraifft am fod y galw am ganolfannau'n uwch, byddai hyn yn cyfateb i fanteision cynnydd yn yr incwm o ffioedd. Ar y llaw arall, os byddai incwm o ffioedd yn is, er enghraifft, am fod y galw am ganolfannau'n is, byddai hyn yn cyfateb i'r fantais yn sgil costau is. Yn yr amgylchiadau hyn byddai'r adnoddau na fyddai angen amdanynt bellach yn cael eu rhyddhau ar gyfer gweithgareddau eraill cynhyrchiol neu sy'n gwneud elw.

Manteision i Awdurdodau Lleol

29. Os bydd gostyngiad yn nifer y seremonïau sifil byddai awdurdodau lleol yn elwa ar ostyngiad cysylltiedig mewn costau. Byddai hyn yn rhyddhau adnoddau i'w dyrannu i weithgareddau cynhyrchiol eraill. Fel yr eglurwyd yn yr adran ar gostau, byddai'r gostyngiad hwn mewn costau yn gysylltiedig â gostyngiad mewn incwm o ffioedd gydag effaith ariannol niwtral ar y cyfan i awdurdodau lleol.
30. Pan fydd angen adnoddau awdurdodau lleol i gynorthwyo mewn priodasau cred digrefydd, bydd disgwyl i awdurdodau lleol godi ffioedd i dalu'r costau hyn. Unwaith eto dylai'r effaith ariannol cyffredinol ar awdurdodau lleol fod yn niwtral.

Manteision i gyplau sydd am gael priodas rhwym mewn cyfraith

31. Byddai cyplau'n manteisio ar fwy o ddewis yn y mathau o briodasau rhwym mewn cyfraith fyddai ar gael iddynt. Disgwylir y byddai cyplau'n manteisio ar y dewis cynyddol pan fyddai'n arwain at fanteision net iddynt.
32. Gall olygu llai o gostau i gyplau sydd ar hyn o bryd yn cael seremoni cred sydd heb statws cyfreithiol a seremoni sifil gyfreithiol, ac a fyddai'n gallu cael priodasau cred digrefydd rhwym mewn cyfraith yn y dyfodol.
33. Er y bydd cynnydd yn y ffioedd i gyplau sydd ar hyn o bryd yn cael seremoni briodasol cred ddigrefydd nad yw'n rhwym mewn cyfraith yn unig, ac a fydd yn cael priodas ddigrefydd rhwym mewn cyfraith yn y dyfodol, disgwylir y bydd y ffioedd uwch hyn yn llai pwysig na'r gwerth y bydd y cyplau hyn yn ei roi ar gael priodas sy'n rhwym mewn cyfraith.

Amdanoch chi

Defnyddiwch yr adran hon i sôn ychydig amdanoch eich hun.

Enw llawn	
Teitl eich swydd neu ym mha rinwedd yr ydych yn ymateb i'r ymgynghoriad hwn (e.e. aelod o'r cyhoedd ac ati)	
Dyddiad	
Enw eich cwmni / sefydliad (os yn berthnasol)	
Cyfeiriad	
Cod Post	
Os hoffech chi i ni gydnabod ein bod wedi cael eich ymateb, ticiwch y blwch	<input type="checkbox"/> (ticiwch y blwch)
Y cyfeiriad ble dylid anfon cydnabyddiaeth i'ch ymateb, os yw'n wahanol i'r uchod	

Os ydych chi'n cynrychioli grŵp, dywedwch wrthym beth yw enw'r grŵp a rhowch grynodeb o'r bobl neu'r sefydliadau rydych yn eu cynrychioli.

Manylion cyswllt/Sut i ymateb

Anfonwch eich ymateb erbyn 18 Medi 2014 at:

Maya Sooben
Ministry of Justice
Family Justice
4.31, 4th Floor
102 Petty France
Llundain SW1H 9AJ

Ffôn: 020 3334 3127

E-bost: MarriagesbyNon-ReligiousBeliefOrganisations@justice.gsi.gov.uk

Cwynion neu sylwadau

Os oes gennych chi unrhyw gwynion neu sylwadau am y broses ymgynghori dylech gysylltu â'r Weinyddiaeth Cyfiawnder yn y cyfeiriad uchod.

Copiâu ychwanegol

Gellir archebu copiâu ychwanegol o'r ymgynghoriad hwn o'r cyfeiriad uchod ac mae ar gael ar-lein hefyd yn <http://www.justice.gov.uk/index.htm>.

Fformatau amgen

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael mewn fformatau amgen drwy wneud cais i'r cyfeiriad hwn.

Cyhoeddi ymatebion

Bydd papur sy'n crynhoi'r ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad hwn yn cael ei gyhoeddi erbyn 1 Ionawr 2015. Bydd y papur ymateb ar gael ar-lein yn <http://www.justice.gov.uk/index.htm>.

Grwpiau cynrychioliadol

Gofynnir i grwpiau cynrychioliadol roi crynodeb o'r bobl a'r mudiadau maent yn eu cynrychioli pan fyddant yn ymateb.

Egwyddorion yr Ymgynghoriad

Mae'r egwyddorion y dylai adrannau'r Llywodraeth a chyirff cyhoeddus eraill eu mabwysiadu ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid wrth ddatblygu polisi a deddfwriaeth wedi'u hamlinellu yn yr egwyddorion ymgynghori.

<http://www.cabinetoffice.gov.uk/sites/default/files/resources/Consultation-Principles.pdf>

© Hawlfraint y Goron 2014
Cynhyrchwyd gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder

Cewch aildefnyddio'r wybodaeth hon (ac eithrio logos) yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored v.2. I weld y drwydded hon ewch i www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/2/ neu anfonwch e-bost i PSI@nationalarchives.gsi.gov.uk Os ydym wedi nodi bod yr hawlfraint ar unrhyw wybodaeth yn eiddo i drydydd parti, bydd angen cael caniatâd gan y deiliaid hawlfraint perthnasol.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch y cyhoeddiad hwn atom yn MarriagesbyNon-ReligiousBeliefOrganisations@justice.gsi.gov.uk